



sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# Adolygiad o **newyddion** a **materion cyfoes** y **BBC**



Dyddiad Cyhoeddi 24 Hydref 2019

# Cynnwys


Trosolwg ........................................................................................................ 3

Cefndir adolygiad Ofcom ........................................................................... 6

Trosolwg o newyddion a materion cyfoes y BBC ............................................ 8

Ansawdd newyddion a materion cyfoes y BBC.............................................. 11

Ymgysylltu â newyddion a materion cyfoes y BBC ......................................... 23

Yr hyn rydym yn disgwyl  i'r BBC ei wneud..................................................... 33

Atodiad 1: Ffeithiau a Ffigurau Pwysig .......................................................... 34

# Trosolwg

## Mae Ofcom wedi cynnal adolygiad manwl o newyddion a materion cyfoes y BBC

Mae darparu newyddion a materion cyfoes dibynadwy ac o ansawdd uchel yn ganolog i gylch gwaith y BBC. Mae'r angen am newyddiaduriaeth gadarn, gywir a dibynadwy mor bwysig ag erioed, a ninnau mewn cyfnod o drafodaethau sy'n gwrthdaro a thrafodaethau gwleidyddol iawn.

Ym mis Mawrth, roeddem wedi lansio adolygiad mewnol o newyddion a materion cyfoes y BBC, gan roi cynulleidfaoedd wrth galon ein hymchwil. Dros y gwanwyn a'r haf roeddem wedi casglu safbwyntiau gan bobl ar draws y wlad. Roeddem wedi comisiynu ymchwil i roi gwybodaeth fanwl i ni ynghylch sut mae pobl yn cael gafael ar eu newyddion, ac fe wnaethom edrych ar ystod a dyfnder yr hyn mae'r BBC yn ei gynnig o'i gymharu â darparwyr newyddion eraill. Roeddem hefyd wedi siarad ag oddeutu 50 o sefydliadau cyfryngau, cyrff y diwydiant ac academyddion ar draws y DU.

Dyma grynodeb o'n prif ganfyddiadau, yn ogystal â'n hargymhellion i'r BBC. Rydym hefyd wedi cyhoeddi'r ystod o dystiolaeth sydd wedi bod yn sail i'r adroddiad hwn ar ein gwefan.

## Mae cywirdeb yn ganolog i enw da'r BBC

Y BBC yw'r brif ffynhonnell newyddion i'r DU o hyd. Er gwaethaf yr amgylchedd gwleidyddol ansicr, mae wedi cynnal ei enw da ymysg y rhan fwyaf o bobl am ohebu'n gywir ac yn ddibynadwy.

Dywedodd cynulleidfaoedd wrthym mai dyma oedd nodweddion pwysicaf darparwyr newyddion, yn arbennig wrth i straeon newyddion dorri. Mewn byd lle mae newyddion ffug a gwybodaeth gamarweiniol ar gael ar-lein, roeddent yn dweud eu bod yn troi at y BBC am olwg ddibynadwy ar ddigwyddiadau. Ond, dywedodd rhai o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw bod materion fel sut roedd y BBC wedi ymdrin â'r gwahaniaeth rhwng cyflogau dynion a menywod wedi gwneud drwg i'w hymddiriedaeth yn y BBC.

**Rhaid i'r BBC barhau i roi'r flaenoriaeth uchaf i ddarparu newyddion cywir. Cynnal ffocws dwys ar hyn yw'r ffordd orau i'r BBC gadw a chryfhau ei enw da. Cyhyd ag y bydd pobl yn dal i droi at y BBC ar adegau pwysig, mae ganddo gyfle i ddenu a gwasanaethu'r amrywiaeth ehangaf o gynulleidfaoedd.**

## Mwy o hyder yn sut mae'n sicrhau didueddrwydd dyladwy

Roedd cynulleidfaoedd yn cydnabod bod pobl yn craffu mwy ar y BBC nag ar sefydliadau eraill y cyfryngau.

Canfu ein hymchwil fod amrywiaeth o ffactorau yn siapio safbwyntiau pobl ynghylch didueddrwydd y BBC, gyda dim ond rhai yn ymwneud yn uniongyrchol â'i gynnwys newyddion a materion cyfoes. Dywedodd rhai wrthym fod brand y BBC, ei fecanwaith cyllido a'r ffordd y mae'n cael ei bortreadu ar y cyfryngau yn ehangach wedi dylanwadu ar eu safbwyntiau. O ran cynnwys, roedd rhai cynulleidfaoedd o'r farn bod y BBC yn rhoi gormod o sylw i leisiau eithafol, ac roedd pobl eraill yn beirniadu 'cywerthedd ffug' yn ei adroddiadau.

Roedd y rhai a oedd yn feirniadol o ddidueddrwydd y BBC yn dueddol o arddel y safbwyntiau gwleidyddol cryfaf hefyd. Mae'r cyd-destun gwleidyddol sydd ar ddau begwn gwahanol ar hyn y bryd yn her i'r BBC o ran sut mae'n mynd ati i sicrhau didueddrwydd dyladwy.

**Nid yw'r rheolau darlledu yn mynnu bod y BBC neu ddarlledwyr eraill yn hollol niwtral ar bob mater mewn newyddion a materion cyfoes, ond mae'n rhaid iddynt ddangos didueddrwydd dyladwy. Mae hyn yn golygu y dylai newyddiadurwyr ystyried y cyd-destun wrth ystyried sut mae sicrhau didueddrwydd dyladwy. Dylent deimlo eu bod yn gallu herio safbwyntiau dadleuol sydd â phrin ddim cefnogaeth neu nad ydynt yn seiliedig ar ffeithiau, gan egluro hyn i'r gwylwyr, y gwrandawyr a'r darllenwyr.**

**Mae ein hymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd yn parchu safon newyddiaduriaeth y BBC ac yn disgwyl i'w ohebwyr ymchwilio i ddigwyddiadau yn ogystal â'u dadansoddi a'u hegluro. Dylai hyn roi hyder i'r BBC fod yn fwy mentrus o ran sut mae'n mynd ati.**

## Cynrychioli'r DU gyfan yn well

Mae rhai yn ystyried bod newyddion y BBC yn cynrychioli safbwynt gwyn, dosbarth canol a Llundeinig sy'n amherthnasol i'w bywydau.

Mae treftadaeth a hirhoedledd y BBC yn gallu ennyn ymddiriedaeth, ond roedd rhai yn disgrifio'r BBC fel sefydliad a oedd yn canolbwyntio ar San Steffan ac yn siarad â ac ar ran carfan fach o gymdeithas. Dywedodd rhai gwylwyr wrthym eu bod yn meddwl bod bwletinau teledu'r BBC yn sych ac yn gul.

Roedd pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig hefyd wedi sôn am y canfyddiad o ddiffyg amrywiaeth ymysg gohebwyr a chyflwynwyr y BBC, neu'r diffyg safbwyntiau gwahanol.

**Dylai'r BBC gynrychioli'r DU i gyd yn well gyda chynnwys newyddion a materion cyfoes go iawn sy'n teimlo'n berthnasol ac yn ddifyr i bawb.**

**Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC wedi sôn bod angen gwneud mwy i adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas y DU yn well. Dywedodd cynulleidfaoedd wrthym eu bod yn dymuno gweld mwy o newyddion am eu cymunedau, a bod y newyddion yn cael eu hadrodd gan bobl sy'n deall yr ardal yn dda. Roedd pobl o'r tu allan i Lundain yn credu y gallai'r BBC wella sut roedd yn adlewyrchu ac yn adrodd ar eu bywydau. Roedd pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn dweud wrthym eu bod yn dymuno teimlo bod eu lleisiau'n cael eu cynrychioli.**

**Gydag adnoddau casglu newyddion lleol a rhanbarthol heb eu hail, dylai'r BBC allu cynrychioli'r wlad i gyd mewn ffordd ddilys drwy ddefnyddio sawl arddull, tôn a phwnc.**

## Ennyn diddordeb cynulleidfaoedd iau ar-lein

Y BBC yw'r ffynhonnell newyddion sy'n cael ei defnyddio amlaf ar-lein yn y DU. Ond, mae wedi bod yn ymwybodol ers tro o'r her mae'n ei hwynebu o ran denu ac ennyn diddordeb pobl iau, sy'n cael gafael ar newyddion fwy a mwy drwy gyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau cyd-gasglu newyddion.

Canfu ein hymchwil, pan fydd pobl yn cael gafael ar newyddion yn y ffordd yma, mai am gyfnod byr fel rheol y byddan nhw'n ymgysylltu â'r cynnwys, sy'n golygu mai dim ond pennawd neu baragraff byr y byddan nhw'n ei ddarllen o bosib cyn symud ymlaen. Ar gyfer rhai roeddem wedi siarad â nhw, dim ond "un o nifer" o ddarparwyr newyddion ar-lein yw'r BBC.

**Er bod gwasanaethau newyddion ar-lein y BBC yn cyrraedd cynulleidfa eang ar hyn o bryd, mae ein gwaith yn awgrymu mai'r rheini sydd yn y grwpiau hŷn yn gyffredinol sy'n defnyddio'r gwasanaethau ar-lein fwyaf, ac mae'r grwpiau hyn eisoes yn cael gwasanaeth da gan deledu a radio'r BBC, yn hytrach na'r cynulleidfaoedd iau sy'n troi eu cefnau ar y llwyfannau hynny.**

**Wrth i fwy a mwy o bobl ddibynnu ar wasanaethau cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau cyd-gasglu newyddion i gael newyddion, mae angen i gynnwys ar-lein y BBC wneud mwy i sefyll allan – neu bydd mewn perygl o golli ei enw da a'i statws fel llais mae pobl yn ymddiried ynddo. Rydym yn credu y bydd tryloywder ynghylch y dull hwn yn helpu i feithrin ymddiriedaeth yn y BBC. Dylai'r BBC gyhoeddi'r camau mae'n eu cymryd i helpu pob cynulleidfa – yn enwedig pobl iau – i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas.**

## Darparu dolenni i ffynonellau ar-lein y tu allan i'r BBC

Mae dolenni gwefannau mewnol y BBC yn wasanaeth pwysig i ddefnyddwyr ar-lein. Mae'r dolenni hyn yn arwain darllenwyr at 'esboniadau' mewn mannau eraill ar wefan y BBC, yn ogystal â dadansoddiad a sylwadau manwl, er mwyn eu helpu i ddeall y straeon newyddion yn well. Ond, mae ein gwaith yn dangos y gallai'r BBC ddarparu mwy o ddolenni i gynnwys trydydd parti, allanol. Mae dolenni allanol yn cefnogi'r diwydiant ehangach ac o fudd i gynulleidfaoedd oherwydd eu bod yn rhoi mynediad at amrywiaeth ehangach o ddeunyddiau.

**Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, byddwn yn casglu tystiolaeth, gan gynnwys gofyn yn ffurfiol i'r BBC am wybodaeth, i ganfod a ddylai wneud mwy i ddarparu dolenni at ffynonellau allanol. Fel rhan o hyn byddwn yn edrych ar berfformiad y BBC yn y maes hwn, ac ar eiriad cyfredol yr amod yn y drwydded, i benderfynu a yw'n dal yn briodol, ac ystyried y newidiadau yn y ffordd mae pobl yn cael gafael ar newyddion.**



# Cefndir adolygiad Ofcom

## Mae'r adolygiad hwn yn edrych ar allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC, ac yn ystyried sut gall wasanaethu pobl ar draws y DU yn well

Mae'r BBC wedi hen ennill ei le fel un o brif ddarparwyr newyddion a materion cyfoes y DU. Mae mwy na thri o bob pedwar yn y DU yn troi at y BBC yn rheolaidd i gael y newyddion – sy'n fwy na'r ddau ddarparwr newyddion mwyaf poblogaidd nesaf gyda'i gilydd.

Rôl Ofcom, ar ran cynulleidfaoedd y DU, yw sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Un ffordd y mae Siarter y BBC yn caniatáu i Ofcom wneud hyn yw cynnal adolygiadau manwl sy'n "mynd i'r afael ag unrhyw bryder penodol" rydym yn ei ganfod (Erthygl 51(3)). Mae'r adolygiadau hyn yn ein helpu ni i ddeall beth yw barn pobl am agweddau o allbwn y BBC a gweld sut gallai'r BBC wasanaethu cynulleidfaoedd yn well.

Yn ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar y BBC, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018, fe ddaethom i'r casgliad bod y BBC yn gwneud yn dda yng nghyswllt ei Ddiben Cyhoeddus sy'n ymwneud â newyddion (fel y nodir yn y blwch isod). Roedd hyn yn adlewyrchu safbwyntiau cynulleidfaoedd, a oedd yn canmol newyddion a materion cyfoes y BBC am ei newyddiaduraeth ymchwiliadol, ei sylwebaeth o safon uchel a'i gywirdeb.

Fodd bynnag, roeddem hefyd wedi nodi rhai meysydd i ymchwilio iddynt yn fanylach. Cafodd y BBC sgoriau is am ddyfnder ei ddadansoddiadau ac am helpu pobl i lunio barn am ddigwyddiadau. Roedd nifer o bobl a ddywedodd fod y BBC yn rhywbeth a oedd yn bwysig iddynt yn bersonol wedi rhoi sgôr is iddo am fod yn ddiduedd a chynnig amrywiaeth barn. Roedd arnom eisiau deall pam.


**Diben Cyhoeddus 1: darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas.**

Dylai'r BBC ddarparu rhaglenni newyddion, materion cyfoes a ffeithiol sy'n ddigon cywir a diduedd er mwyn gwella dealltwriaeth pobl o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a'r byd ehangach. Dylai'r cynnwys arddel y safonau golygyddol uchaf.

> Dylai gynnig cynnwys a dadansoddiadau manwl ac amrywiol, nad ydynt ar gael yn helaeth gan ddarparwyr newyddion eraill y Deyrnas Unedig, drwy ddefnyddio newyddiadurwyr a chyflwynwyr o'r radd flaenaf, a hybu rhyddid mynegiant, er mwyn i'r holl gynulleidfaoedd allu ymgysylltu'n llawn â materion pwysig lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, ar lefel y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang, yn ogystal â chyfrannu at y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion gweithredol a gwybodus.
>
> - Erthygl 6(1), Siarter y BBC

Ers i ni lansio ein hadolygiad, mae ein rhaglen helaeth o ymchwil wedi mynd â ni ar draws y Deyrnas Unedig. Rydym wedi gofyn i bobl yn fanwl am eu harferion newyddion, yr hyn sy'n bwysig iddynt am y newyddion a'r materion cyfoes y maent yn eu gwylio, yn eu darllen ac yn gwrando arnynt, a'r rôl mae newyddion a materion cyfoes y BBC yn ei chwarae yn eu bywydau. Mae adroddiadau a chrynodebau llawn sy'n rhoi rhagor o gig ar esgyrn yr ymchwil a'r dadansoddiadau sy'n sail i'r adolygiad hwn ar gael drwy glicio ar y blychau isod:

**Ffigur 1: Ymchwil a gynhyrchwyd fel rhan o'n hadolygiad ar Newyddion y BBC**




Er mwyn helpu i arwain ein gwaith, roeddem hefyd wedi cwrdd â rhanddeiliaid ar draws y DU, gan gynnwys darlledwyr, grwpiau papurau newydd, newyddiadurwyr cyfryngau, cyrff proffesiynol ac academyddion yn ogystal â chyrff cynghori Ofcom ym mhob un o'r gwledydd. Roedd rhai wedi dewis siarad yn gyfrinachol, er mwyn siarad yn agored am yr heriau mae'r BBC yn eu hwynebu a sut mae'n ymateb iddynt. Roedd nifer o'r pwyntiau hyn wedi cael eu hadlewyrchu gan ganfyddiadau'r ymchwil ymysg cynulleidfaoedd. Roedd rhai wedi siarad â ni yn fwy ffurfiol am faterion penodol ac mae'r trafodaethau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn ein canfyddiadau.

Yn olaf, rydym wedi cynnal nifer o gyfarfodydd ag uwch staff yn y BBC i ddeall eu dull o ddarparu cynnwys newyddion a materion cyfoes a fydd yn parhau i fodloni anghenion cynulleidfaoedd.



# Trosolwg o newyddion a materion cyfoes y BBC

## Mae tri ymhob pedwar o oedolion y DU bellach yn gwylio, darllen neu’n gwrando ar newyddion y BBC

Mae tri o bob pedwar o oedolion yn y DU bellach yn gwylio, yn darllen neu’n gwrando ar newyddion y BBC. Mae’r dyddiau hynny pan arferai pobl gael y newyddion ar adegau penodol o’r dydd, a chlywed pytiau o newyddion rhwng hynny, wedi hen ddiflannu. Mae hanner oedolion y DU nawr yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gael newyddion ac mae llawer iawn o straeon ar gael 24-7 drwy ystod eang o ddyfeisiau a llwyfannau ar-lein.


Mae cenhadaeth y BBC, sy’n cael ei gosod gan y Senedd yn ei Siarter, yn mynnu ei fod yn gwasanaethu pob cynulleidfa. Mae darparu ei allbwn newyddion a materion cyfoes ar y teledu, ar y radio ac ar-lein yn rhan o’i Genhadaeth.

Mae rhagor o ddata am sut mae pobl yn cael gafael ar newyddion a materion cyfoes ar draws pob llwyfan, oriau allbwn a gwariant ar raglenni ar gael yn atodiad 1: ‘Ffeithiau a ffigurau’.

## Teledu

Er gwaethaf y twf mewn newyddion ar-lein, teledu yw’r brif ffordd mae pobl yn cael gafael ar newyddion o hyd. Mae newyddion ar y teledu yn dal i gael eu gwylio gan 79% o oedolion yn ôl ein hymchwil, er bod gwahaniaethau mawr rhwng grwpiau demograffig gwahanol:

**Ffigur 2: Gwylio teledu BBC Newyddion drwy grŵp demograffig**




Ar draws ei sianeli teledu yn 2018, roedd y BBC wedi darlledu tua 23,000 awr o gynnwys newyddion a materion cyfoes, sydd ychydig o dan hanner ei allbwn yn gyffredinol. Roedd y sianeli BBC News a

BBC Parliament yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r oriau hynny (77%). Mae tua un rhan o bump o amserlen BBC One yn cynnwys rhaglenni newyddion a materion cyfoes.

**Ffigur 3: Oriau o newyddion a materion cyfoes fesul pob gwasanaeth BBC**

| Gwasanaeth | | Oriau yn 2013 | Canran oriau yn 2013 | Oriau yn 2018 | Canran oriau yn 2018 |
|---|---|---|---|---|---|
| BBC one | BBC One | 3548 | 42%` | 3613 | 43% |
| BBC TWO | BBC Two | 898 | 12% | 1353 | 17% |
| BBC three | BBC Three | 181 | 6% | - | - |
| BBC FOUR | BBC Four | 121 | 4% | 157 | 5% |
| BBC NEWS | BBC News | 8760 | 100% | 8760 | 100% |
| BBC PARLIAMENT | BBC Parliament | 8760 | 100% | 8760 | 100% |

Roedd oedolion a oedd yn gwylio newyddion ar deledu yn 2018 yn gwneud hynny am oddeutu hanner awr ar gyfartaledd bob dydd. O gyfanswm yr amser a dreuliwyd yn gwylio'r newyddion, roedd 69% o hwnnw wedi cael ei dreulio'n gwylio BBC One. Fodd bynnag, mae cyfanswm yr amser sy'n cael ei dreulio'n gwylio'r newyddion wedi bod yn gostwng, yn bennaf oherwydd bod llai yn gwylio'r sianel BBC News.

Y rhaglenni newyddion mwyaf poblogaidd ar deledu yn 2018 oedd bwletin *News at Six* y BBC, wedi'i ddilyn gan ei fwletin *News at Ten* ac wedyn *Evening News* ITV.

## Ar-lein

Mae ein hymchwil yn dangos bod dwy ran o dair o oedolion yn mynd ar-lein i gael eu newyddion nawr. Mae bron i hanner yn dweud eu bod nawr yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd, gydag oddeutu un o bob chwech yn dweud mai Facebook a Twitter yw'r ffynhonnell newyddion maent yn ei defnyddio amlaf. Ym mis Mawrth 2019, gwefan BBC News oedd safle newyddion mwyaf poblogaidd y DU, gan gyrraedd 64% o'r oedolion sydd ar-lein, ychydig cyn y Daily Mail Online (63%).

Yng nghyd-destun yr holl lwyfannau a ffynonellau gwahanol mae pobl yn dweud eu bod yn eu defnyddio ar gyfer newyddion, mae gwefan/ap newyddion y BBC yn bedwerydd y tu ôl i BBC One, ITV a Facebook.

Ar gyfryngau cymdeithasol, mae ein hymchwil yn dangos mai'r BBC sydd fwyaf tebygol o gael ei ddilyn ymysg y rheini sy'n dilyn sefydliadau newyddion, yn enwedig ar Facebook a Twitter.

## Radio

Mae tua dwy ran o bump o oedolion yn dweud eu bod yn defnyddio'r radio i gael newyddion. Er bod yr ymchwil yn dangos bod gwrando ar y radio yn tueddu i fod yn weithgaredd mwy goddefol neu ddamweiniol, mae gwrandawyr yn gwerthfawrogi newyddion y radio, yn enwedig pan fydd straeon newyddion yn torri.

Mae'r ddarpariaeth newyddion ar radio'r BBC yn amrywio yn ôl rhwydwaith ond, yn yr un modd â'r rhan fwyaf o orsafoedd radio yn y DU, yn gyffredinol maent i gyd yn darparu bwletinau byr ar yr awr. Yn ogystal â'r bwletinau hyn ar bob gorsaf, mae Radio 1 yn darparu dau fwletin 15 munud o hyd bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener; mae rhaglen Jeremy Vine ar Radio 2 yn rhoi sylw i newyddion a phynciau materion cyfoes mewn rhaglen bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener lle mae'r gwrandawyr yn cael ffonio'r rhaglen; mae tua dwy ran o bump o amserlen Radio 4 o ddydd Llun i ddydd Gwener yn cynnwys newyddion a materion cyfoes; ac mae tri chwarter o allbwn Radio 5 live yn perthyn i'r genre yn benodol.

Yn ogystal â darlledu ar y radio, mae'r BBC hefyd yn cynnig newyddion a materion cyfoes mewn podlediadau, drwy gyfuniad o raglenni dal i fyny, deunyddiau darlledu sy'n cael eu hail-becynnu a chynnwys penodol ar BBC Sounds. Mae *Brexitcast*, sydd wedi ennill gwobr, yn enghraifft o hyn.


Yn ôl ein hymchwil, mae tua thri chwarter o oedolion yn dweud eu bod yn defnyddio radio'r BBC i gael newyddion, ac mae tua un gwrandäwr o bob wyth yn dweud mai Radio 2 yw eu prif ffynhonnell ar gyfer cael newyddion, a Radio 4 yw eu ffynhonnell fwyaf poblogaidd ar gyfer materion cyfoes. Oddi wrth radio traddodiadol, roedd yr ymchwil a gomisiynwyd gennym yn gynharach yn y flwyddyn wedi canfod fod BBC iPlayer a BBC Sounds yn fwy tebygol o gael eu defnyddio i chwilio am gynnwys newyddion nag unrhyw wasanaethau podledu eraill.




# Ansawdd newyddion a materion cyfoes y BBC

A ninnau'n wynebu mwy a mwy o newyddion ffug a gwybodaeth gamarweiniol, mae pryder cynyddol ymysg y cyhoedd ynghylch cynnwys camarweiniol ar-lein. Mae ymchwil Ofcom yn dangos y gallai hyn niweidio ymddiriedaeth y cyhoedd, a gallai o bosibl olygu goblygiadau difrifol ar gyfer prosesau democrataidd yn y DU. Mae llawer o bobl yn ei chael hi'n anodd dilysu cynnwys newyddion ar-lein, ac maent yn disgwyl i ddarparwyr newyddion sydd wedi ennill eu plwyf wahaniaethu ffeithiau oddi wrth ffuglen.

**Ffigur 4: Noweddion darparwyr newyddion a werthfawrogir gan gynulleidfaoedd**




Mae'r BBC yn ymwybodol o'r her hon ac mae wedi cydnabod y rôl bwysig sydd ganddo yn helpu i gynnal ymddiriedaeth yn y cyfryngau yn y DU. Mae Cynllun Blynyddol diweddaraf y BBC yn nodi'r pleidgarwch a'r ymrannu sydd i'w gweld fwyfwy mewn gwleidyddiaeth ac ar y cyfryngau. Yn y Cynllun, dywedodd y BBC ei fod yn ceisio cryfhau ei ymrwymiad i egluro beth mae digwyddiadau'n ei olygu a pham eu bod yn bwysig er mwyn cynnal ymddiriedaeth cynulleidfaoedd yn y BBC.

## Dywedodd cynulleidfaoedd wrthym mai nodweddion pwysicaf unrhyw ddarparwr newyddion oedd 'cywirdeb' ac 'ymddiriedaeth'. Maent yn gwerthfawrogi'r BBC oherwydd y nodweddion hyn.

Roedd pobl yn ein grwpiau ffocws yn gyson ystyried mai 'ymddiriedaeth' a 'chywirdeb' oedd nodweddion pwysicaf newyddion y BBC. Roedd hyn yn wir ymysg defnyddwyr pob llwyfan, gan gynnwys y rheini a oedd yn cael llai o gynnwys gan y BBC neu'r rheini nad oedd ganddynt gymaint o ddiddordeb mewn pynciau fel gwleidyddiaeth neu newyddion rhyngwladol. Roedd pobl yn canmol y BBC yn gyffredinol am ddarparu newyddion a materion cyfoes cywir ac o safon uchel. Mae hyn yn cyd-fynd â'n hymchwil parhaus ar gael gafael ar newyddion sy'n dangos bod saith o bob deg sy'n gwylio newyddion y BBC yn dweud eu bod yn gywir a'u bod yn ymddiried ynddynt.

Yn ein grwpiau ffocws, rhoddodd pobl nifer o resymau pam roeddent yn ymddiried yn y BBC. Roedd rhai yn dweud am eu bod wedi bod yn gwylio’r BBC am amser maith a’u bod yn hyderus ei fod yn darparu newyddion cywir a dibynadwy. Roedd rhai yn disgwyl safonau uwch gan y BBC na darparwyr masnachol oherwydd y ffordd y mae’n cael ei gyllido gan ffi’r drwydded.

> *Pan rydych yn cael eich magu yn y DU, mae fel rhan o’ch bywyd. Chi’n gwybod eu bod nhw’n ymdrechu bod yn ddibynadwy.”*
> *Menyw, 19, Belfast*

Roedd yr ymddiriedaeth mae nifer o bobl yn ei rhoi yng nghynnwys newyddion y BBC yn cael ei hadlewyrchu yn ein dadansoddiad o'r cyfryngau cymdeithasol, a oedd yn edrych ar faint o ddolenni newyddion y BBC a oedd yn cael eu rhannu’n gyhoeddus a’u trafod. Roedd y dadansoddiad hwn yn dangos bod y mwyafrif helaeth o bobl sy'n rhannu cynnwys newyddion BBC ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn gwneud hynny mewn ffordd a oedd yn awgrymu eu bod yn meddwl bod yr wybodaeth yn ddibynadwy, gan ddefnyddio cynnwys erthyglau i rannu gwybodaeth yr ymddiriedir ynddi neu i ategu eu safbwynt eu hunain. Roedd y rhan fwyaf a oedd yn rhannu straeon newyddion ar-lein y BBC yn gwneud hynny’n ddi-gwestiwn, gan ddim ond anfon dolen ymlaen a chyflwyno hynny fel ffaith. Dim ond lleiafrif a oedd yn rhannu’r wybodaeth mewn ffordd a oedd yn awgrymu nad oeddent yn derbyn y BBC fel ffynhonnell ddibynadwy yr ymddiriedir ynddi.

## Mae'r enw da yma am fod yn gywir ac yn ddibynadwy yn golygu bod cynulleidfaoedd yn troi at y BBC pan fydd newyddion yn torri ac er mwyn dilysu ffeithiau.

Roedd cywirdeb yn bwysig i bobl oherwydd bod arnynt eisiau osgoi ‘newyddion ffug’ ac roeddent eisiau gwrthbwynt atebol a dibynadwy i’r ystod o sylw a safbwyntiau roeddent yn dod ar eu traws. Ar adegau penodol, pan roedd stori yn torri er enghraifft, dywedodd rhai pobl wrthym eu bod wedi troi at y BBC i gael safbwynt awdurdodol ar y digwyddiadau. Roedd hyn yn wir am bobl a oedd yn ymwneud llai â’r BBC fel rheol a’r rheini a oedd yn ei ddefnyddio’n rheolaidd. Dywedodd defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau cyd-gasglu newyddion wrthym er bod y llwyfannau hyn yn cynnig amrywiaeth o safbwyntiau pan fyddai newyddion yn torri, roeddent yn gwybod eu bod yn fwy tebygol o gynnwys ‘newyddion ffug’.

> *“Dwi’n meddwl bod y BBC yn un o’r ffynonellau mwyaf dibynadwy. Mae llawer o hyn i wneud gyda’r ffaith fod y sianel hon wedi bod yn rhan o fy mywyd ers oeddwn yn blentyn yn gwylio’r ‘Test Card’. Mae’n ddibynadwy ac yn uchel ei pharch.”*
> *Menyw, 65, Bangor*

Dywedodd rhai cynulleidfaoedd wrthym eu bod yn ystyried y gallai darparwyr newyddion eraill, fel Sky News, fod yn gyflymach na’r BBC wrth roi gwybod am newyddion sy’n torri. Ond dywedodd cynulleidfaoedd wrthym hefyd eu bod yn gwerthfawrogi safbwynt dibynadwy'r BBC, a'u bod yn troi ato fel ffynhonnell ddibynadwy a chywir yn ystod digwyddiadau mawr. Pan roedd pobl yn chwilio am wybodaeth am stori neu bwnc penodol, roedd y BBC yn ddewis poblogaidd ymysg pobl, a oedd dweud wrthym eu bod yn defnyddio'r BBC i wirio ffeithiau.

At ei gilydd roedd y rhanddeiliaid roeddem wedi siarad â nhw yn gadarnhaol am enw da'r BBC am ddarparu newyddion dibynadwy a chywir, gan gydnabod mai dyma oedd un o brif gryfderau’r

sefydliad. Roeddent hefyd yn tynnu sylw at rôl arweiniol y BBC yn gweithio gyda'r diwydiant ar ddiogelu cynulleidfaoedd rhag gwybodaeth gamarweiniol.

Roedd nifer o bobl yn cydnabod yr her yr oedd y BBC yn ei hwynebu wrth ohebu mewn amgylchedd wleidyddol mor gyferbyniol ac yn dweud ei fod yn parhau i ymddiried ynddo. Ond, nid dyma oedd y darlun cyffredinol. Mae'r BBC fel sefydliad wedi wynebu nifer o faterion anffodus sydd wedi dwyn anfri ar y sefydliad. I rai o'r cynulleidfaoedd roeddem wedi siarad â nhw roedd materion fel sgandal Jimmy Savile a'r anghydfod diweddar ynghylch y gwahaniaeth rhwng cyflogau dynion a menywod wedi dylanwadu ar eu hymddiriedaeth yn y BBC yn fwy cyffredinol. Roedd hyn yn trosi i'r ymddiriedaeth roeddent yn ei rhoi yn narpariaeth newyddion y BBC, gan awgrymu bod digwyddiadau sefydliadol yn gallu cael effaith dymor hir ar y ffordd y mae darpariaeth newyddion y BBC yn cael ei gweld.

**Argymhelliad:**

Rhaid i'r BBC barhau i roi'r flaenoriaeth uchaf i ddarparu newyddion cywir. Cynnal ffocws dwys ar hyn yw'r ffordd orau i'r BBC gadw a chryfhau ei enw da. Cyhyd ag y bydd pobl yn dal i droi at y BBC ar adegau pwysig, mae ganddo gyfle i ddenu a gwasanaethu'r amrywiaeth ehangaf o gynulleidfaoedd.

## Er bod ymddiriedaeth a chywirdeb yn cael sgoriau uchel, mae canfyddiadau pobl ynghylch didueddrwydd y BBC yn fwy cymhleth

Roedd y cynulleidfaoedd roeddem wedi siarad â nhw wedi nodi bod didueddrwydd yn nodwedd greiddiol i ddarparwr newyddion da, ynghyd ag ymddiriedaeth a chywirdeb. Yn ystod ein grwpiau ffocws roedd y BBC yn cael ei enwi heb i ni gymell hynny fel sefydliad a oedd yn cynnig darpariaeth ddiduedd. Ond ar y cyfan, roedd safbwyntiau cynulleidfaoedd ynghylch didueddrwydd yn fwy cymhleth na'r rheini ynghylch ymddiriedaeth a chywirdeb.

Mae data o'n harolwg ar gael gafael ar newyddion yn 2019 yn dangos bod cynulleidfaoedd yn rhoi sgôr is i'r BBC am ddidueddrwydd nag am ymddiriedaeth a chywirdeb, gyda bron i un o bob pump yn rhoi sgôr 'isel' i ddidueddrwydd y BBC.

**Ffigur 5: Canran o ddefnyddwyr rheolaidd yn sgorio pob priodoledd yn uchel (7-10) ar gyfer y BBC ar draws llwyfannau**

| *Priodoledd* | *Teledu* | *Radio* | *Ar-lein* |
|---|---|---|---|
| Yn gywir | 71% | 72% | 74% |
| Yn ddibynadwy | 71% | 72% | 71% |
| Yn ddiduedd | **59%** | **64%** | **61%** |

*Ffynhonnell: Arolwg Defnydd Newyddion Ofcom 2019*

Mae cyfran llai o wylwyr newyddion teledu'r BBC yn ystyried ei fod yn ddiduedd na gwylwyr ITV, Channel 4 neu Sky News. Dywedodd y rheini a gymerodd ran yn ein hymchwil eu bod yn meddwl

bod didueddrwydd y BBC yn cael ei graffu'n fwy manwl gan y wasg, gwleidyddion a'r cyhoedd oherwydd ei statws unigryw a'i ofyniad i wasanaethu pob cynulleidfa.

Ers 2017, pan wnaethom ni ysgwyddo'r cyfrifoldebau dros reoleiddio'r BBC, nid ydym wedi canfod ei fod wedi torri gofynion 'didueddrwydd dyladwy' y Cod Darlledu. Pan fyddwn yn ystyried a yw rhaglenni'n ddigon diduedd byddwn yn ystyried ffactorau am y cyd-destun fel y genre ac ar ba wasanaeth y mae'r deunydd yn cael ei ddarlledu. Yn bwysig, nid yw'r Cod Darlledu yn mynnu bod y BBC yn rhoi sylw cyfartal i wahanol safbwyntiau, ac nid yw didueddrwydd dyladwy yr un fath â niwtraliaeth.

Mae gan y BBC hawl i ryddid mynegiant ac mae gan gynulleidfaoedd hawl i gael gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth ddiangen. Mae hon yn hawl sylfaenol sy'n galluogi rhyddid mynegiant a llif syniadau a gwybodaeth o'r cyfryngau i'r cyhoedd.

### Ystyr didueddrwydd 'dyladwy'

Mae "dyladwy" yn oleddfiad pwysig i'r cysyniad o ddidueddrwydd. Mae didueddrwydd ei hun yn golygu peidio â ffafrio un ochr yn fwy nag un arall. Mae "dyladwy" yn golygu digonol neu briodol i destun a natur y rhaglen. Felly nid yw "didueddrwydd dyladwy" yn golygu bod rhaid rhoi'r un amser ar gyfer pob barn neu fod rhaid cyflwyno pob dadl a phob agwedd ar bob dadl. Mae'r cyd-destun yn bwysig.

### Brexit ar Radio 4

Y llynedd, roedd Ofcom wedi asesu llawer iawn o gynnwys ar BBC Radio 4 am y DU yn gadael yr UE, ar ôl cwyn ar y cyd gan ddeg o unigolion, gan gynnwys rhai seneddwyr. Yn eithriadol, ac er mwyn darparu arweiniad i ddarlledwyr, penderfynodd Ofcom gyhoeddi ei benderfyniad nad oedd y cynnwys yn cyfiawnhau ymchwiliad pellach yn ei Fwletin Broadcast and On-Demand.

Roeddem wedi nodi'r technegau golygyddol gwahanol roedd y BBC wedi'u defnyddio i sicrhau didueddrwydd dyladwy. Roedd y rhain yn cynnwys: roedd cyflwynwyr wedi herio safbwyntiau gwesteion; adolygiadau papur newydd; gohebwyr arbenigol yn rhoi dadansoddiad ychwanegol; datgan yn glir mai safbwyntiau personol oedd yn cael eu rhannu; targedu amrywiaeth o ffigurau mewn ffordd ddychanol; a chynnwys safbwyntiau gan wleidyddion a oedd â barn wahanol, cynrychiolwyr o gyrff diwydiant ac aelodau o'r cyhoedd.

Roedd ein hymchwil wedi canfod bod nifer o ffactorau'n dylanwadu ar safbwyntiau cynulleidfaoedd ynghylch didueddrwydd y BBC, a dim ond un o'r rheini oedd cynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC.

- At ei gilydd roedd pobl a oedd yn arddel safbwyntiau gwleidyddol cryf yn meddwl bod y BBC yn rhy asgell chwith neu dde, gan ddibynnu ar eu safiad gwleidyddol personol. Mae ein dadansoddiad o gyfryngau cymdeithasol yn awgrymu mai'r rheini a oedd yn arddel y safbwyntiau gwleidyddol cryfaf oedd y mwyaf tebygol o wneud sylwadau beirniadol am y BBC. Er mai dim ond cyfran fach o sylwadau am gynnwys y BBC roedd y rhain yn eu cynrychioli, roedd

safbwyntiau negyddol yn mynd ymhellach na chanmoliaeth wrth i bobl gadarnhau safbwyntiau a oedd wedi cael eu dal ers tro.

- Roedd rhai pobl yn amau bod adroddiadau'r BBC yn cael eu dylanwadu gan y llywodraeth Brydeinig oherwydd ei fodel ariannu.
- Roedd y rheini nad oeddent yn cael cymaint o ddarpariaeth gan y BBC yn aml yn seilio eu canfyddiadau ynghylch didueddrwydd y BBC ar ffynonellau eraill, fel adroddiadau mewn papurau newydd, cyfryngau eraill neu drwy sgwrsio â phobl.

*"Rwy'n ymddiried ynddynt i roi'r ffeithiau ond dwi'n ymddiried llai ynddyn nhw o ran eu tueddiad i fod o blaid y llywodraeth Brydeinig"*
*Dynes, 38, Larne*

Pan roeddent yn seiliedig ar gynnwys, roedd canfyddiadau ynghylch didueddrwydd rhaglenni gwleidyddol y BBC yn aml yn ymwneud â rhaglenni materion cyfoes megis *Question Time* a *Newsnight*. Roedd y safbwyntiau hyn yn cael eu ffurfio nid yn unig o brofiad pobl o wylio'r rhaglenni, ond hefyd o sut roedd y rhaglenni hyn yn cael sylw yn y wasg. Roedd dadansoddiad o gyfryngau cymdeithasol yn datgelu bod y rhaglenni hyn yn ymrannol ymysg y lleiafrif o bobl a oedd yn defnyddio'r llwyfan hwnnw i feirniadu newyddion a materion cyfoes y BBC.

Roedd ein hymchwil yn dangos bod mwy a mwy o bobl yn osgoi mannau a rhaglenni lle caiff eu syniadau eu herio. Roedd y bobl a oedd yn rhoi sylwadau ar-lein am y rhaglenni materion cyfoes uchod yn gwneud hynny mewn 'siambrau adlais' lle nad oedd eu safbwyntiau'n cael eu cwestiynu'n rheolaidd. Pan roeddent yn gwylio rhaglenni lle'r oedd safbwyntiau croes yn cael eu cynrychioli, neu pan roedd eu safbwyntiau eu hunain yn cael eu herio'n gadarn, roeddent yn gweld hyn fel rhywbeth anghyfforddus iawn.

## Roedd rhai cynulleidfaoedd yn teimlo y gallai'r BBC wella ei agwedd at ddidueddrwydd dyladwy

Roedd rhai pobl wedi codi pryderon ynghylch agwedd y BBC at ddidueddrwydd. Roedd y rhain i gyd yn ymwneud â'r ffordd y mae'r BBC yn cynnwys safbwyntiau dadleuol.

Roedd beirniadaeth o'r BBC am roi'r hyn a oedd yn cael ei ystyried fel amlygrwydd amhriodol i safbwyntiau gwleidyddol 'eithafol'. Mae rhyddid mynegiant yn cynnwys y gallu i adlewyrchu ystod eang o leisiau a safbwyntiau, sy'n ganolog i rôl y BBC. Ond dywedodd pobl wrthym eu bod yn meddwl bod y ffordd roedd y BBC yn adlewyrchu'r safbwyntiau 'eithafol' hyn weithiau ar draul safbwyntiau mwy cymedrol neu 'nodweddiadol'. Roedd cynulleidfaoedd hefyd o'r farn nad oedd safbwyntiau o'r fath yn cael eu herio weithiau, neu nid oeddent yn cael eu herio'n briodol.

*"Mae angen llai o 'sŵn' ar y BBC mewn materion cymhleth a hir fel Brexit. Llai o safbwyntiau sydd ar bob pen i'r sbectrwm – mwy o gymysgedd a chymedroldeb."*
*Menyw, 72, Abertawe*

Fel enghreifftiau, roeddent wedi cyfeirio at raglenni panel materion cyfoes fel *Question Time* a defnyddio cyfweliadau byr gydag aelodau o'r cyhoedd mewn pecynnau newyddion. Roedd hyn yn cyd-fynd â'n dadansoddiad o gyfryngau cymdeithasol, a ganfu fod y drafodaeth ar-lein ynghylch rhaglenni panel materion cyfoes y BBC yn sbarduno ymateb mwy negyddol, yn enwedig ymysg y rheini sydd â barn wleidyddol gref.

Yn olaf, soniodd rhai pobl am yr hyn roeddent yn ei weld fel 'cywerthedd ffug', lle rhoddwyd pwysau cyfartal mewn dadl i safbwyntiau nad oedd iddynt sail ffeithiol gyfartal. Roedd hyn yn arbennig o wir am gynulleidfaoedd iau ar amrywiaeth o straeon, gan gynnwys Brexit.

Er mwyn ategu ein hymchwil, roeddem wedi dadansoddi 300 o gwynion a gawsom ynghylch didueddrwydd y BBC rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Chwefror 2019. Nid oedd yr un ohonynt wedi'u cadarnhau yn torri gofynion didueddrwydd dyladwy y Cod Darlledu. Fodd bynnag, roedd y prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r cwynion hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ein grwpiau ffocws fel yr amlinellir uchod, gan gynnwys canfyddiadau bod amlygrwydd amhriodol yn cael ei roi i safbwyntiau eithafol; neu fod 'cywerthedd ffug'. Roedd themâu eraill yn cynnwys nad oedd gohebwyr a chyflwynwyr yn herio safbwyntiau gwesteion yn ddigonol a bod y rheini a oedd yn cyfweld a'r gwesteion yn siarad neu'n gweiddi dros ei gilydd, a oedd yn arwain at ddadleuon o ansawdd is.

Mae ein hymchwil yn dangos, mewn cyfnod o bolareiddio gwleidyddol, bod cynulleidfaoedd sy'n poeni am duedd ymddangosiadol yn newyddion y BBC yn annhebygol o gael eu cysuro gan gynnwys sy'n rhoi llwyfan i leisiau y maent yn anghytuno'n llwyr â nhw. Mae rhoi amser cyfartal ar yr awyr i safbwyntiau gwahanol yn gallu arwain at gywerthedd ffug yn hytrach na didueddrwydd dyladwy.

Mae'r BBC yn cydnabod hyn. Mae ei Gynllun Blynyddol, a gyhoeddodd yn gynharach eleni, yn sôn bod cymdeithas y DU yn profi cyfnod o ymrannu, ac mae'n cydnabod y rôl sydd ganddo oherwydd hynny i ddod â phobl ynghyd â hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol. Roedd y BBC yn amlinellu ei awydd i sefyll i fyny dros ei rôl "yn fwy nag erioed", gan ei bod yn rhan bwysig o'r hyn roedd yn ei ddisgrifio fel ei "gontract parhaus" gyda chynulleidfaoedd.

Mae'r BBC eisoes wedi rhoi sylw i 'gywerthedd ffug' yn ei adroddiadau ac wedi rhoi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn. Ond mae ein hymchwil yn dangos bod y ffordd mae'n delio â didueddrwydd dyladwy yn dal yn bryder i rai pobl. Mae hefyd yn dangos bod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi newyddiaduriaeth sy'n ceisio torri drwy safbwyntiau croes er mwyn cael eglurder a rhoi gwybodaeth am y byd.

## Asesiad o BBC Breakfast

Wrth gynnal ein hadolygiad, fe wnaeth dull gweithredu'r BBC o ran didueddrwydd dyladwy ddenu llawer iawn o sylw gan y cyhoedd.

> **_'BBC Breakfast'_ 17 Gorffennaf 2019, Asesiad Ofcom**
>
> Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd Ofcom ei asesiad o'r bennod hon o BBC Breakfast. Roedd y rhaglen yn cynnwys trafodaeth rhwng y cyflwynwyr Naga Munchetty a Dan Walker am sylwadau a wnaed gan yr Arlywydd Donald Trump a oedd wedi cael cryn feirniadaeth am fod yn sylwadau hiliol. Ar ôl cyfweliad gydag un o gefnogwyr yr Arlywydd Trump, gofynnodd Dan Walker i Naga Munchetty am y sylwadau a siaradodd hi am ei phrofiad personol o hiliaeth. Dywedodd hefyd 'dydw i ddim yma i roi fy marn".
>
> Penderfyniad gwreiddiol Uned Cwynion Gweithredol y BBC oedd bod y sylwadau a wnaed gan Naga Munchetty wedi torri gofynion didueddrwydd Canllawiau Golygyddol y BBC yn rhannol. Yn dilyn beirniadaeth gyhoeddus, gwrthdrodd Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC benderfyniad gwreiddiol yr Uned Cwynion Gweithredol.

Asesodd Ofcom y rhaglen yn ei chyfanrwydd o dan ofynion didueddrwydd dyladwy'r Cod Darlledu (y Cod). Gan ystyried holl ffactorau perthnasol y cyd-destun a'r technegau golygyddol a ddefnyddiwyd gan y BBC, daethom i'r casgliad bod safbwyntiau gwahanol ar y drafodaeth wleidyddol ynghylch iaith yr Arlywydd Trump wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol.

Fe wnaethom asesu'r sgwrs benodol rhwng Dan Walker a Naga Munchetty hefyd. Yn yr achos hwn, roedd rheolau perthnasol y Cod yn mynnu'r un safonau ar gyfer cyflwynwyr newyddion â Chanllawiau Golygyddol y BBC yn y bôn. Er mwyn helpu i gadw didueddrwydd dyladwy, ni chaiff cyflwynwyr na gohebwyr newyddion fynegi eu safbwyntiau eu hunain ynghylch dadl wleidyddol. Nid oedd profiadau Naga Munchetty o hiliaeth yn fater gwleidyddol, felly nid oedd yr agwedd hon o sgwrs y cyflwynwyr yn berthnasol i reolau didueddrwydd dyladwy'r Cod.

Roedd agweddau eraill ar y sgwrs fer yn berthnasol i'r rheolau hyn, gan fod datganiadau'r Arlywydd Trump yn bwnc llosg gwleidyddol. Fe wnaethom ystyried nifer o ffactorau'r cyd-destun, gan gynnwys mai rhaglen gylchgrawn newyddion yw fformat y rhaglen ac mai trafodaethau anffurfiol rhwng y cyflwynwyr yw arddull y rhaglen ers tro; bod Dan Walker wedi gofyn cwestiynau uniongyrchol i Naga Munchetty am ei phrofiadau ei hun; a natur penodol ei sylwadau. Ar y cyfan, daethom i'r casgliad nad oedd y rhan hon o'r rhaglen wedi codi materion o dan y rheolau didueddrwydd dyladwy.

Am y rhesymau hyn a gan ystyried yr hawl i ryddid mynegiant, asesiad Ofcom oedd na fyddai'r rhaglen yn torri rheolau didueddrwydd dyladwy y Cod ac nid oedd yn codi materion a oedd yn cyfiawnhau ymchwiliad.

Roedd ein hasesiad hefyd yn tynnu sylw at ein pryderon ynghylch diffyg tryloywder proses gwyno'r BBC a'r rhesymau am y penderfyniadau mae'n eu gwneud, ac rydym yn rhoi sylw i hyn ar frys.

Mae'r achos hwn yn amlygu rhai o'r pryderon a gododd cynulleidfaoedd am agwedd y BBC at ddidueddrwydd dyladwy yn ystod ein hymchwil.

Roedd llawer o'r feirniadaeth o'r BBC ynghylch y mater hwn wedi canolbwyntio ar a oedd y BBC wedi dyfarnu bod angen didueddrwydd dyladwy gyda hiliaeth. Nid oedd yr Uned Cwynion Gweithredol wedi cyhoeddi'r rhesymau llawn am ei benderfyniad, ac ni wnaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol gyhoeddi ei resymau yntau'n llawn pan wrthdrodd y penderfyniad gwreiddiol. Roedd y diffyg tryloywder ac eglurder ynghylch y naill benderfyniad a'r llall wedi creu llawer o ddryswch ymysg y cyhoedd ynghylch safbwynt y BBC ar fater pwysig o ran polisi golygyddol. Yn benodol, roedd yn creu canfyddiad bod y BBC wedi camddeall gofynion diwydrwydd dyladwy fel y maent yn berthnasol i hiliaeth.

Fel rydym yn ei nodi uchod, mae canfyddiadau cynulleidfaoedd ynghylch didueddrwydd dyladwy yn gymhleth ac nid ydynt bob amser yn seiliedig ar gynnwys rhaglenni yn unig. Mae'r BBC wedi dweud ei fod yn bwriadu canolbwyntio eleni ar gryfhau canfyddiadau ynghylch didueddrwydd dyladwy. Er mwyn llwyddo i wneud hyn, rhaid iddo gydnabod mai safbwyntiau am ei frand a'i dreftadaeth sy'n gyfrifol am y canfyddiadau hyn, nid dim ond cynnwys ei raglenni.

Mae'r achos hwn yn tanlinellu bod angen i'r BBC fod yn dryloyw ac yn glir yn y ffordd y mae'n delio â chwynion, nid yn unig ar gyfer y cyhoedd ond ar gyfer newyddiadurwyr sy'n defnyddio penderfyniadau fel hyn fel canllawiau i benderfynu ar eu dull gweithredu.

**Argymhelliad:**

Nid yw'r rheolau darlledu yn mynnu bod y BBC neu ddarlledwyr eraill yn hollol niwtral ar bob mater mewn newyddion a materion cyfoes, ond mae'n rhaid iddynt ddangos didueddrwydd dyladwy. Mae hyn yn golygu y dylai newyddiadurwyr ystyried y cyd-destun wrth ystyried sut mae sicrhau didueddrwydd dyladwy. Dylent deimlo eu bod yn gallu herio safbwyntiau dadleuol sydd â phrin ddim cefnogaeth neu nad ydynt yn seiliedig ar ffeithiau, gan egluro hyn i'r gwylwyr, y gwrandawyr a'r darllenwyr.

Mae ein hymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd yn parchu safon newyddiaduriaeth y BBC ac yn disgwyl i'w ohebwyr ymchwilio i ddigwyddiadau yn ogystal â'u dadansoddi a'u hegluro. Dylai hyn roi hyder i'r BBC fod yn fwy mentrus o ran sut mae'n mynd ati.

## Roedd cynulleidfaoedd yn canmol proffesiynoldeb a difrifoldeb adrodd y BBC, ond nid oedd hyn bob amser yn cyfateb i ddyfnder darpariaeth na chraffu

Yn ogystal ag adolygu sut roedd y newyddion yn cael eu cyflwyno ar y BBC, roeddem eisiau defnyddio ein hadolygiad i ddeall rhagor am ystod a dyfnder y deunyddiau roedd y BBC yn eu cynnig ar draws ei lwyfannau.

Nid oedd yr agwedd hon o'i ddarpariaeth bob tro yn brif bryder i'r bobl roeddem wedi siarad â nhw yn ystod ein hymchwil. Roedd cynulleidfaoedd yn canmol proffesiynoldeb cyflwyno'r BBC, ei dôn, ei strwythur a'i gysondeb. Ac er eu bod yn dweud wrthym eu bod yn meddwl bod allbwn y BBC ar draws teledu, radio ac ar-lein yn feincnod ar gyfer darpariaeth newyddion o ansawdd uchel, dim ond rhan o'r rheswm dros ddewis troi at gynnwys y BBC oedd hyn.

Fe wnaethom gomisiynu dadansoddiad o gynnwys er mwyn edrych ar ystod a dyfnder yn fanylach. Roedd hyn yn edrych ar allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC, yn ogystal ag amrywiaeth o ddarparwyr tebyg dros gyfnod sampl o dair wythnos ym mis Mehefin. Roedd y cyfnod hwn yn cynnwys ymweliad yr Arlywydd Trump â'r DU, 75 mlynedd ers D-Day a chystadleuaeth arweinyddiaeth y Blaid Geidwadol.

Mae disgwyl i'r BBC gynnig ystod a dyfnder o ddadansoddiad a chynnwys nad yw ar gael yn helaeth gan ddarparwyr newyddion eraill yn y DU. Yn gyffredinol, ac ar draws ei allbwn teledu, radio ac ar-lein, rydym wedi canfod ei fod wedi gwneud hynny dros y cyfnod roeddem wedi edrych arno. Roedd ffocws cyffredinol cryf ar bynciau fel gwleidyddiaeth, economeg, busnes a materion rhyngwladol yn narpariaeth y BBC. Wrth gymharu â'r prif fwletinau teledu mawr eraill, er enghraifft, roedd y BBC yn canolbwyntio mwy ar straeon a oedd yn ymwneud â rhyfeloedd a gwrthdaro, fel yr anniddigrwydd sifil yn Swdan a'r tensiynau diplomataidd rhwng UDA ac Iran.

Canfu ein hymchwilwyr fod y BBC yn rhoi lefel uwch o wybodaeth a dadansoddiad polisi na darlledwyr eraill, yn ogystal â chefndir a chyd-destun defnyddiol i'r materion er mwyn helpu cynulleidfaoedd. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r rheini a gymerodd ran yn ein hymchwil ymysg cynulleidfaoedd, roedd ein dadansoddiad o gynnwys yn nodi nad oedd newyddiadurwyr y BBC bob tro'n herio neu'n gwrthbwyso honiadau.

Er enghraifft, mewn sylw i gystadleuaeth arweinyddiaeth y Blaid Geidwadol, roedd yr adolygwyr cynnwys wedi nodi rhai honiadau gan yr ymgeiswyr na chawsant eu herio gan newyddiadurwyr y BBC ond byddai gwneud hynny wedi helpu i daflu goleuni ar honiadau a gwrth-honiadau safleoedd polisi gwahanol. Wrth roi sylw i Brexit yn ystod yr un cyfnod, roedd yr adolygwyr wedi sylwi bod yr holl ddarparwyr newyddion roeddent wedi edrych arnynt – gan gynnwys y BBC – wedi rhoi sylw i ddatblygiadau o safbwynt gwleidyddol y DU i raddau helaeth, heb gynnwys amrywiaeth o safbwyntiau Ewropeaidd er mwyn helpu i roi gwybodaeth i gynulleidfaoedd am safbwyntiau neu ystyriaethau eraill. Y perygl yw er y gallai'r BBC lwyddo i gyflwyno adroddiadau am ddigwyddiadau'r diwrnod, nid yw efallai bob tro'n craffu ac yn rhoi dadansoddiad eang sy'n helpu cynulleidfaoedd i ddeall ac i ddilyn straeon wrth iddynt ddatblygu.

## Roedd rhai sefydliadau cyfryngau yn poeni am gwmpas darpariaeth newyddion ar-lein y BBC a'i barodrwydd i gysylltu â ffynonellau eraill

Yn ystod ein hadolygiad roeddem wedi siarad â nifer o randdeiliaid yn y diwydiant a oedd yn teimlo bod y BBC wedi ehangu ei gwmpas golygyddol ar-lein i feysydd a oedd yn perthyn yn draddodiadol i bapurau newydd. Roeddent wedi mynegi pryder penodol ynghylch yr hyn roeddent yn ei weld fel amlygrwydd i straeon am ffordd o fyw, sêr neu bynciau adloniant ar wefan newyddion y BBC, gan gwestiynu i ba raddau roedd hi'n briodol i'r BBC gynnig deunyddiau o'r fath.

Dywedodd y BBC wrthym, er bod eitemau newyddion ar straeon mawr y dydd fel datblygiadau gwleidyddol neu economaidd yn dal i fod yn berthnasol i'r holl gynulleidfaoedd, mae ei ymchwil yn dangos bod gan gynulleidfaoedd iau ddiddordeb mewn ystod ehangach o newyddion, gan gynnwys mewn pynciau fel yr amgylchedd a diwylliant. Er mwyn ennyn diddordeb y cynulleidfaoedd hyn sy'n anoddach eu cyrraedd, mae'r BBC wedi dweud mai ei strategaeth oedd addasu tôn ac agenda ei allbwn ar-lein a'i allbwn digidol arall er mwyn iddo fod yn fwy perthnasol i'w bywyd. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r BBC wedi cyhoeddi rhagor o gynnwys o dan frand *BBC Stories*, sy'n darparu rhaglenni dogfen fideos ar-lein a rhaglenni nodwedd manwl ar faterion diwylliannol a chymdeithasol.

Fe wnaethom ofyn i'r ymchwilwyr a oedd yn dadansoddi'r cynnwys i edrych ar ffocws golygyddol gwefan ac ap newyddion y BBC fel rhan o'u gwaith yn asesu amrywiaeth a manylder arlwy'r BBC. Er mwyn gwneud hynny, roeddent wedi cymharu'r pynciau mwyaf poblogaidd ar wefan ac ap newyddion y BBC bob dydd yn ystod y cyfnod â chynnwys amrywiaeth o ddarparwyr newyddion eraill.

Roedd hyn yn dangos bod newyddion y BBC ar-lein yn adlewyrchu agenda newyddion darlledu'r BBC yn gyffredinol, gan roi amlygrwydd i bynciau dyrys fel materion gwleidyddol, busnes, economeg a materion rhyngwladol. Roedd y ffocws golygyddol hwn yn cymharu â'r hyn a oedd yn cael ei gynnig gan ddarparwyr fel The Telegraph a The Guardian ar-lein, yn ogystal â Buzzfeed a The Huffington Post. Roedd fersiynau ar-lein The Sun, Daily Mail a'r Mirror yn tueddu i ganolbwyntio eu prif benawdau ar newyddion am ffordd o fyw, sêr ac adloniant.

Roedd darparwyr newyddion masnachol hefyd wedi dadlau bod ansawdd darpariaeth newyddion ar-lein y BBC yn is na'r disgwyl wrth ystyried cael gafael ar straeon neu eu priodoli. Roeddent yn teimlo y gallai'r BBC wneud mwy i anfon defnyddwyr at ei wefannau.

O dan ei Drwydded Weithredu, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu digon o ddolenni i ddeunyddiau ar-lein trydydd partïon, yn enwedig mewn newyddion. Nid dim ond cefnogi'r diwydiant newyddion ehangach yw'r nod; mae darparu'r dolenni hyn hefyd yn cyfrannu at sut mae'r BBC yn darparu Diben Cyhoeddus 1 drwy helpu defnyddwyr i gael gafael ar ystod o wybodaeth yn ogystal â'i gynnwys ei hun. Wrth wneud hynny, mae'r Drwydded Weithredu yn nodi y dylai'r BBC ystyried y dolenni mae'n eu cynnig yn ofalus.

Mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod yn canolbwyntio ar wella ansawdd yn hytrach na nifer y dolenni mewn eitemau newyddion wrth geisio cydymffurfio â'r amod hwn. Roeddem wedi edrych ar y maes hwn fel rhan o'n dadansoddiad o gynnwys hefyd. Roedd y gwaith hwn wedi gweld bod y rhan


fwyaf o ddarparwyr newyddion ar-lein, gan gynnwys newyddion y BBC, yn darparu dolenni mewnol yn hytrach na rhai allanol yn eu heitemau newyddion eu hunain, fel sy'n cael ei ddangos isod:

**Ffigur 6: Trawsdoriad o ddetholiadau o eitemau newyddion sy'n cynnwys dolenni mewnol ac allanol ar hafan BBC Newyddion (y wefan a'r ap) ac is-dudalennau detholedig (gwefan)**

| | | Dolenni mewnol (%) | Dolenni allanol (%) |
|---|---|---|---|
| **Hafan BBC Newyddion** | Gwefan BBC Newyddion | **84.8** | **15.2** |
| | Ap BBC Newyddion | **83.1** | **16.9** |
| **BBC News website subpages** | Iechyd | **84.3** | **15.7** |
| | Gwyddoniaeth | **70.5** | **29.5** |
| | Gwleidyddiaeth | **88.2** | **11.8** |
| | Byd | **73.3** | **26.7** |

*Ffynhonnell:Dadansoddiad cynnwys Ofcom*

**Ffigur 7: Trawsdoriad o ffynonellau ar gyfer dolenni allanol mewn detholiad o eitemau newyddion ar hafan BBC Newyddion:**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad cynnwys Ofcom. Mae'r cyfran o ddolenni allanol sy'n weddill yn mynd at ffynonellau fel cyfryngau cymdeithasol, cyfnodolion academaidd, cyrff cyfreithiol a gwleidyddol y DU a chyrff rhyngwladol a gwleidyddol cyfreithiol.*

Roedd yr ymchwilwyr hefyd wedi edrych ar le'r oedd y dolenni allanol yn arwain. O'r rheini a oedd ar hafan newyddion y BBC, roedd tua 40% yn arwain at negeseuon trydar, un mewn pump at sefydliadau busnes ac un mewn wyth at safleoedd papurau newydd y DU. Yn groes i hynny, roedd dros 80% o'r hyperddolenni allanol ar y Daily Mail Online a The Mirror yn mynd i safleoedd a oedd yn cael eu cynnig gan ddarlledwyr, papurau newydd a chyhoeddwyr ar-lein eraill.

Mae dolenni gwefannau mewnol y BBC yn wasanaeth pwysig i ddefnyddwyr ar-lein. Mae'r dolenni hyn yn arwain darllenwyr at 'esboniadau' mewn mannau eraill ar wefan y BBC, yn ogystal â dadansoddiad a sylwadau manwl, er mwyn eu helpu i ddeall y straeon newyddion yn well. Ond, mae

ein gwaith yn dangos y gallai'r BBC ddarparu mwy o ddolenni i gynnwys trydydd parti, allanol. Mae dolenni allanol yn cefnogi'r diwydiant ehangach ac o fudd i gynulleidfaoedd oherwydd eu bod yn rhoi mynediad at amrywiaeth ehangach o ddeunyddiau.

**Y camau nesaf:**

## Y camau nesaf:

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, byddwn yn casglu tystiolaeth, gan gynnwys gofyn yn ffurfiol i'r BBC am wybodaeth, i ganfod a ddylai wneud mwy i ddarparu dolenni at ffynonellau allanol. Fel rhan o hyn byddwn yn edrych ar berfformiad y BBC yn yr elfen hon, ac ar eiriad cyfredol yr amod yn y drwydded, i benderfynu a yw'n dal yn briodol, ac ystyried y newidiadau yn y ffordd mae pobl yn cael gafael ar newyddion.



# Ymgysylltu â newyddion a materion cyfoes y BBC

## Mae rhai cynulleidfaoedd yn gwneud llai â newyddion a materion cyfoes y BBC

Er gwaethaf ffigurau cyrhaeddiad cryf yn gyffredinol, mae amrywiadau wedi bod ers tro byd o ran cael gafael ar newyddion y BBC yn ôl grŵp demograffig.

> ### Cael gafael ar newyddion ar deledu
>
> Mae tri chwarter o'r holl oedolion yn defnyddio newyddion y BBC ar draws ei holl lwyfannau ond mae hyn yn disgyn i 58% yn y grŵp oed 16-24.
>
> Roedd 57% o oedolion yn gwylio newyddion ar deledu'r BBC yn 2018/19 o'i gymharu â 46% o bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.
>
> Roedd 23% o bobl ifanc 16-24 wedi gwylio newyddion ar deledu'r BBC TV yn 2018/19, a oedd dros un rhan o dair yn llai o'r gynulleidfa mewn pum mlynedd.

Ar gyfer materion cyfoes, roedd y darlun yn debyg:

> ### Cael gafael ar faterion cyfoes
>
> Roedd 28% o oedolion yn gwylio rhaglenni materion cyfoes ar draws teledu'r BBC yn 2018/19, gyda gostyngiad o un rhan o bump o'i gymharu â phum mlynedd yn ôl.
>
> Roedd 8% o oedolion rhwng 16 a 24 oed yn gwylio rhaglenni materion cyfoes ar deledu'r BBC yn 2018/19, bron hanner y rheini a oedd yn gwylio bum mlynedd yn ôl.
>
> Roedd 23% o oedolion o leiafrifoedd ethnig yn gwylio rhaglenni materion cyfoes ar deledu'r BBC yn 2018/19 ac mae hyn wedi gostwng dim ond 5% ers 2013/14.

## Mae BBC News yn cael ei weld gan rai yn cynrychioli safbwynt sy'n bennaf yn wyn, dosbarth canol ac yn canolbwyntio ar Lundain

Roedd diffyg amrywiaeth yn y straeon a oedd yn cael sylw gan y BBC, a'r gohebwyr a'r cyflwynwyr ar y sgrin, yn bryder cryf a godwyd gan rai pobl roedden ni wedi siarad â nhw yn ystod ein gwaith ymchwil. Roedd hyn yn arbennig o wir ymysg pobl iau a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Roedd rhai cynulleidfaoedd hefyd yn teimlo bod darpariaeth newyddion y BBC yn cynrychioli safbwynt cul, gan roi gormod o ffocws ar dde-ddwyrain Lloegr a San Steffan yn benodol.

Pan oedd newyddion y BBC yn portreadu eu bywyd neu'n rhoi sylw i straeon a oedd yn bwysig iddynt, roedd pobl o grwpiau demograffig gwahanol yn mynegi pryderon ag agwedd y BBC tuag at hyn.

> *"Dwi'n meddwl ei fod yn bwysig i'r BBC i nodi amrwyiaeth gan ei fod yn bwysig iawn. Rydyn yn byw mewn cymdeithas amlddiwylliannol a weithiau gall fod yn safbwynt eithaf gorllewinol, gwyn, dosbarth canol o ran darpariaeth a chynnwys"*
> Dynes, 34, Bryste

Dywedodd pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wrthym fod y BBC yn "amlwg yn well" na darlledwyr eraill am bortreadu materion sy'n effeithio ar eu cymunedau. Roedd rhai'n feirniadol o'r diffyg portread cadarnhaol o rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Roeddent am i'r BBC adlewyrchu eu cymunedau'n fwy cywir a rhoi mwy o amlygrwydd i'w "hwyneb a'u llais".

Yn yr un modd roedd rhai pobl wedi dweud nad oeddent yn ymddiried cymaint mewn darlledwyr newyddion, gan gynnwys y BBC, oherwydd bod grwpiau lleiafrifoedd yn aml yn cael sylw anghymesur mewn adroddiadau am faterion negyddol fel troseddau gyda chyllyll a thrais gangiau.

> *"[Mae'r] BBC i fi wedi ei leoli yn Llundain. Mae'r rhaglenni wedi'u lleoli'n Llundain, o gwmpas y Senedd yno, o gwmpas y 'tube'. Os ydy'r 'tube' yn torri lawr, mae e ar y newyddion i gyd. Os ydy pobl yn cael eu trywanu yn Llundain, mae yna benawdau. Os yn rhywle arall, llai o sylw."* Dyn, 70, Newcastle

Roedd pobl iau hefyd yn cwestiynu i ba raddau roedd darpariaeth newyddion y BBC yn "siarad â fi". Yn nodweddiadol roeddent yn gweld darpariaeth newyddion y BBC fel rhywbeth "sych a diflas". Yn hytrach nag adlewyrchu eu diddordebau, roedd y grŵp hwn yn aml yn gweld y BBC fel rhywbeth mwy perthnasol i'w rhieni. At ei gilydd roedd ar gynulleidfaoedd iau eisiau deall newyddion o safbwynt byd-eang. Roedd ganddynt ddiddordeb mewn newyddion rhyngwladol ac roeddent yn meddwl bod y BBC yn canolbwyntio gormod ar y DU.

## Dywedodd cynulleidfaoedd wrthym eu bod yn gwerthfawrogi newyddiaduraeth ymchwiliol sydd wedi'u harwain gan safbwyntiau ac sy'n realistig

Un o agweddau newyddion y BBC a oedd yn taro tant gyda phobl ifanc 16-24 oed oedd newyddiaduraeth a oedd yn cael ei harwain gan safbwyntiau. Roedd pobl yn ein hymchwil yn sôn yn aml am raglenni a oedd yn cael eu cyflwyno gan Stacey Dooley a Reggie Yates fel enghreifftiau amlwg o hyn. Fe wnaethon nhw ddweud wrthym fod y math yma o newyddiaduraeth yn eu helpu i wneud synnwyr o'r byd a'i fod yn cael ei gyflwyno mewn ffordd yr oedden nhw'n gallu ei deall.

Roedd radio yn sefyll allan fel rhywbeth a oedd yn darparu cynnwys a oedd yn fwy "amrywiol" a "difyr" a oedd yn adlewyrchu bywydau amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Dywedodd rhai cynulleidfaoedd wrthym fod cyflwynwyr radio yn fwy parod i herio a chynnig barn na chyflwynwyr teledu. Roeddent yn teimlo bod hyn yn fwy ymrannol ond hefyd yn fwy difyr.

Roedd pobl roeddem wedi siarad â nhw wedi dweud eu bod yn hoffi rhaglenni ymchwiliol a oedd yn cynnwys "esboniadau real" a safbwyntiau personol. Roedd cynulleidfaoedd iau yn benodol yn teimlo bod Channel 4 yn gwneud hyn yn well na'r BBC a'i bod yn mynd i'r afael â phynciau a oedd yn fwy perthnasol iddynt.

Er mwyn deall y mathau o bynciau a oedd yn cael eu trafod dan faterion cyfoes y BBC, roedd ein hymchwilwyr wedi archwilio penodau o *Panorama* gan y BBC, *Dispatches* Channel 4 a *Tonight* ITV rhwng mis Mehefin 2018 a mis Mehefin 2019. Ar gyfer yr holl raglenni hyn fe ddaethom i'r casgliad eu bod yn canolbwyntio'n gryf ar bynciau a oedd yn ymwneud ag iechyd ac addysg. Er enghraifft, roedd traean o benodau *Panorama* yn canolbwyntio ar iechyd neu faterion a oedd yn ymwneud â'r GIG, fel yr oedd cyfran debyg o benodau *Tonight*. Roedd *Dispatches* a *Panorama* ill dau wedi rhoi sylw i bwnc rhyngwladol mewn tua un bennod o bob wyth.

Er bod rhaglenni materion cyfoes y BBC yn cael eu gweld fel rhai a oedd yn rhoi fwy o farn ac yn fwy heriol na'i allbwn newyddion, roedd rhai pobl yn meddwl ei fod yn gwneud hyn yn llai llwyddiannus na darlledwyr eraill fel Channel 4.

## Mae ar bobl eisiau gweld newyddion a materion cyfoes y BBC yn canolbwyntio mwy ar fywydau a phryderon cymunedau ar draws y DU

Mae gan y BBC weithrediadau casglu newyddion enfawr a swyddfeydd penodol ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU. Mae'r adnodd hwn yn golygu bod gan y BBC gyfle unigryw i sicrhau bod pob rhan o'r DU yn cael ei chynrychioli ac yn cael sylw yn ei ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes.

Er gwaethaf hyn, roedd rhai pobl roeddem wedi siarad â nhw yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn feirniadol o'r ffordd roedd y BBC yn cynrychioli straeon a oedd yn berthnasol i'w bywydau yn ei ddarpariaeth newyddion ar gyfer y DU. Roedd hyn yn fwyaf amlwg ar faterion sy'n ymwneud â meysydd polisi datganoledig, fel addysg ac iechyd, sy'n effeithio ar gynulleidfaoedd yn wahanol ar draws pob un o wledydd y DU.




**Ffigur 8: Lleoliadau grwpiau ffocws**

Roeddent yn teimlo nad oedd pob un yn cydnabod y gwahaniaeth, a bod hyn ddim ond yn cael ei grybwyll yn gyflym ar ddiwedd stori newyddion.

Roeddem wedi dadansoddi cynnwys er mwyn cael gwybod i ba raddau roedd y BBC, a darparwyr newyddion eraill, yn egluro agweddau datganoledig straeon am iechyd ac addysg mewn allbwn newyddion ar draws y DU ar deledu, ar radio ac ar-lein. Yn syml, roedd ein dadansoddiad yn edrych ar a oedd yr eitemau newyddion a oedd yn rhoi sylw i faterion yn ymwneud ag iechyd neu addysg yn egluro y gallai polisi cyhoeddus fod yn wahanol yn y meysydd hyn yng ngwledydd gwahanol y DU.

Roedd y BBC yn gwneud yn well na'i gystadleuwyr yn hyn o beth. Fodd bynnag, yn y straeon a oedd yn rhan o'n dadansoddiad a *allai* fod wedi cyfeirio at agweddau datganoledig polisïau iechyd neu

addysg (gan ystyried natur y stori a pha mor berthnasol oedd datganoli i'r pwnc), nid oedd y BBC wedi gwneud unrhyw gyfeiriad o'r fath mewn bron i hanner yr achosion (46%). Ar draws y BBC a newyddion masnachol, pan roedd rhywfaint o wybodaeth ddatganoledig wedi cael ei chynnwys, roedd hynny'n aml yn seiliedig ar gyfeiriadau ymhlyg, fel 'yn Lloegr' neu 'GIG Lloegr', yn hytrach na nodi'n benodol y gwahaniaethau mewn polisïau datganoledig ar gyfer cynulleidfaoedd ym mhob gwlad.

*"Mae newyddion teledu'r BBC i weld yn trafod newyddion addysg ac iechyd fel petai os oes rhywbeth yn digwydd yn Lloegr, mae'n digwydd yn yr Alban hefyd ond dyw e ddim. Mae'n gwbl wahanol, ffordd wahanol o redeg y system."*
*Menyw, 56, Stornoway*

Roedd cynulleidfaoedd y tu allan i Lundain a de ddwyrain Lloegr yn dweud eu bod yn teimlo'n aml bod ffocws anghymesur ar yr ardaloedd hynny a gwleidyddiaeth 'swigen San Steffan'. Roedd rhai yn credu nad oedd y BBC yn rhoi digon o sylw i sut roedd mathau gwahanol o straeon newyddion yn effeithio ar fywydau pobl ar draws y wlad. Roedd cynulleidfaoedd yn rhanbarthau Lloegr yn teimlo y gallai'r BBC ddarparu mwy o newyddion am y mannau lle maent yn byw yn ei allbwn newyddion cenedlaethol. Roeddent yn dweud y byddai hynny'n darparu ystod ehangach o safbwyntiau o bob cwr o'r wlad a fyddai'n berthnasol i gynulleidfaoedd.

## Y llynedd roeddem wedi adrodd nad yw'r bobl sy'n gweithio i'r BBC yn gwbl gynrychioladol o boblogaeth y DU. Mae hyn yn dal yn wir ddeuddeg mis yn ddiweddarach.

Un o brif ganfyddiadau *ein Hadolygiad o Gynrychiolaeth a Phortreadu* yn y BBC y llynedd oedd os yw'r BBC eisiau cynhyrchu cynnwys go iawn sy'n berthnasol i bob cynulleidfa, rhaid i'r bobl sy'n gweithio ar raglenni adlewyrchu amrywiaeth y DU.

Fel rhan o'n hymchwil y llynedd, roeddem wedi siarad â phobl sy'n gweithio i'r BBC. Roedd nifer ohonynt yn cydnabod bod amrywiaeth a chynhwysiant wedi dod yn ffocws cynyddol o'r sgwrs a'r diwylliant ehangach yn y BBC a bod newid mewn diwylliant o ran materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant yn dod yn fwyfwy amlwg. Ond, fe glywsom gan rai gweithwyr, gan gynnwys gwneuthurwyr rhaglenni yn y BBC, a oedd yn teimlo bod y BBC wedi tueddu i ddefnyddio gwneuthurwyr rhaglenni o gronfa fach o bobl, heb amrywiaeth o ran ethnigrwydd a dosbarth. Er bod y BBC yn ymwybodol o'r materion hyn, gall sicrhau newid fod yn broses araf oherwydd maint y sefydliad.

Mae gan y BBC gyfres o dargedau amrywiaeth y gweithlu ar gyfer gweithwyr ar y sgrin ac oddi ar y sgrin, y mae'n rhaid eu cyrraedd erbyn 2020. Er bod cynnydd wedi'i wneud, gyda llai na blwyddyn i fynd, mae gwaith i'w wneud o hyd er mwyn bodloni pob un o'r targedau hyn. Mae'r BBC yn ymwybodol o'r her yn y maes hwn, a dros y flwyddyn ddiwethaf, mae wedi cyhoeddi pum adroddiad ar wahân gan wahanol ffrydiau gwaith o ran amrywiaeth, gan adolygu diwylliant a chynnydd y bobl o gefndiroedd amrywiol yn y BBC. Roedd aelod o'r pwyllgor gweithredol neu uwch arweinydd yn atebol am bob adolygiad, a datblygwyd 128 o argymhellion i gyd. Mae'r BBC wedi dweud wrthym fod 50% o'r argymhellion hyn wedi'u cwblhau bellach a bod 48% yn dal i fynd rhagddynt. Mae'r pwyllgor gweithredol a Bwrdd y BBC yn goruchwylio cynnydd y gwaith hwn yn rheolaidd.

Mae canfyddiadau ein hadroddiad diweddar ar amrywiaeth mewn darlledu yn nodi'n glir, er bod gwelliannau wedi'u gwneud yn ddiweddar o ran datblygu cynrychiolaeth a chynhwysiant ar draws meysydd penodol o weithlu'r BBC, diolch i nifer o gynlluniau wedi'u targedu, mae gwelliannau mewn meysydd eraill wedi bod yn arafach. Er enghraifft, mae'r cynnydd o ran cynrychioli pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, yn arbennig ar lefelau uwch, yn ogystal â menywod ar lefelau uwch, wedi bod yn llai sylweddol.

Wrth ystyried targedau cyhoeddus y BBC yn y meysydd hyn, mae'r cynnydd yng nghyfran y gweithwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sydd wedi gadael y BBC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (o 16% yn 2017 i 20% yn 2018) yn fater sy'n peri pryder. Byddem wedi disgwyl gweld cyfradd cadw gweithwyr o'r fath yn cynyddu.

Yn yr un modd, ni fu unrhyw gynnydd sylweddol mewn cynrychiolaeth o fenywod ar lefelau uwch nac ar draws y sefydliad drwyddo draw. Bydd yn rhaid i'r BBC symud ymlaen yn sylweddol o'r ffigur cyfredol o 43% o fenywod mewn uwch swyddi rheoli er mwyn cyrraedd ei darged o gynrychiolaeth 50:50 ar gyfer menywod ar lefelau uwch erbyn y flwyddyn nesaf.

Rydym yn cydnabod bod y BBC yn arwain y ffordd o ran casglu data am amrywiaeth y gweithlu, er mwyn iddo allu deall cyfansoddiad ei weithlu yn well, ac fel hyn y dylai fod. Dylai hyn ei alluogi i dargedu ymyriadau'n well er mwyn gwella cynrychiolaeth ym mhob maes o'i waith. Serch hynny, mae rhywfaint o fylchau data yn y data am ei weithlu o hyd, ac rydym hefyd yn nodi bod y ffigurau uchod yn ymwneud a gweithlu'r BBC *yn gyffredinol*. Er bod y BBC yn cyhoeddi ffigurau ar amrywiaeth y rhai hynny sy'n gweithio ym meysydd newyddion a materion cyhoeddus, mae hyn yn cael ei adrodd ar draws yr holl adran ac nid yw'n darparu gwybodaeth benodol ar rolau penodol, rhaglenni penodol neu sianeli. Dylai'r BBC fod yn fwy tryloyw yn y maes hwn, i sicrhau bod ei raglenni yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth y DU.

**Argymhelliad:**

Dylai'r BBC gynrychioli'r DU i gyd yn well gyda chynnwys newyddion a materion cyfoes go iawn sy'n teimlo'n berthnasol ac yn ddifyr i bawb.

Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC wedi sôn bod angen gwneud mwy i adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas y DU yn well. Dywedodd cynulleidfaoedd wrthym eu bod yn dymuno gweld mwy o newyddion am eu cymunedau, a bod y newyddion yn cael eu hadrodd gan bobl sy'n deall yr ardal yn dda. Roedd pobl o'r tu allan i Lundain yn credu y gallai'r BBC wella sut roedd yn adlewyrchu ac yn adrodd ar eu bywydau. Roedd pobl mewn grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn dweud wrthym eu bod yn dymuno teimlo bod eu lleisiau'n cael eu cynrychioli.

Gydag adnoddau casglu newyddion lleol a rhanbarthol heb eu hail, dylai'r BBC allu cynrychioli'r wlad i gyd mewn ffordd ddilys drwy ddefnyddio sawl arddull, tôn a phwnc.

## Mae gan newyddion y BBC gyrhaeddiad cyffredinol da ar-lein, ond nid yw hyn yn adrodd y stori gyfan

Mae’n ymddangos bod sawl agwedd o'r darlun cyffredinol o ymgysylltu ar-lein â newyddion y BBC yn gadarnhaol. Mae ein harolwg blynyddol o gael gafael ar newyddion yn awgrymu mai’r BBC yw’r ffynhonnell newyddion sy’n cael ei defnyddio amlaf ar-lein, gan gyrraedd 64% o’r oedolion sy’n defnyddio gwasanaethau ar-lein. Mae bron i hanner y bobl sy’n cael gafael ar newyddion ar eu ffôn clyfar yn defnyddio newyddion y BBC. Y BBC yw’r sefydliad newyddion sy’n cael ei ddilyn amlaf ar bob safle cyfryngau cymdeithasol allweddol hefyd. Fodd bynnag, mae dadansoddiad pellach yn awgrymu bod gwahaniaethau mawr rhwng grwpiau demograffig. Mae data gan y diwydiant yn awgrymu y bu gostyngiad dros y flwyddyn ddiwethaf o 10% yn nifer yr oedolion 16-34 oed a oedd yn defnyddio newyddion ar-lein y BBC, o'i gymharu â chynnydd o 6% ymysg y rheini sydd dros 55 oed.

## Mae cyfryngau cymdeithasol wedi newid sut mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu â newyddion ar-lein yn sylweddol

Mae hanner yr holl oedolion nawr yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gael gafael ar newyddion, ac mae hyn yn codi i dros dri chwarter o bobl ifanc 16-24 oed.

Er mwyn deall yn well sut mae pobl yn ymwneud â chynnwys newyddion ar-lein, a’r rôl mae’r BBC yn ei chwarae, roeddem wedi comisiynu ymchwil i fapio'r ffyrdd y mae pobl yn defnyddio newyddion ar-lein. Roedd ein hastudiaeth wedi nodi tair ‘siwrnai newyddion’ nodweddiadol.

**Defnydd arferol**

Cael gafael ar ddefnydd newyddion, fel arfer drwy **un ffynhonnell**, yn **rheolaidd**

*“Newyddion ar y teledu yn y bore ac yn y nos, tua chwech o’r gloch ar gyfer newyddion lleol a’r newyddion cenedlaethol”*
Dyn, 62, Swydd Efrog

**Defnydd bwriadol**

Chwilio’n **fwriadol** am gynnwys newyddion i wirio **ffeithiau**, cael clywed am **newyddion sy’n torri** neu i gael **gwybodaeth ychwanegol** am bwnc arbennig.

*“Os dwi’n clywed ffaith ddifyr neu stori ddiddorol... Dwi’n mynd at fy ngliniadur ac yn chwilio Google.”*
Dyn, 45, Llundain

**Defnydd damweiniol**

Dod ar draws newyddion yn **ddamweiniol** tra’n gwneud rhywbeth arall, fel arfer drwy’r **cyfryngau cymdeithasol**, **clywed gan eraill** neu drwy **hysbysiadau**.

*“Dwi’n bendant yn dod ar draws erthyglau newyddion heb chwilio amdanynt. Er enghraifft pan dwi ar Snapchat ar fy ffôn symudol, gallwch chi weld erthyglau ‘clickbait’ bob amser.”* Menyw, 27, Llundain

Roedd y BBC yn amlwg ym mhob un o’r siwrneiau newyddion hyn, ar draws pob llwyfan. Ond dangosodd ein hymchwil ei fod yn arbennig o gryf yn ystod siwrneiau arferol a bwriadol.

Ar gyfer **siwrneiau newyddion arferol**, dywedodd cynulleidfaoedd wrthym mai newyddion y BBC oedd y lle cyntaf roeddent yn troi; roedd yn rhan o’u trefn arferol ac roedd nifer wedi cael eu magu yn gwylio’r BBC gyda’u rhieni. Ar ffonau clyfar, roeddem yn gweld bod y siwrneiau hyn yn aml yn digwydd yn y bore neu yn y nos, gan awgrymu eu bod yn rhan o drefn ddyddiol. Apiau Sky News a BBC News oedd y ffynonellau newyddion a ddefnyddiwyd amlaf yn ystod y siwrneiau hyn.

Ar gyfer **siwrneiau bwriadol**, roedd y BBC yn cael ei weld fel ffynhonnell ddibynadwy er mwyn cael rhagor o wybodaeth am bynciau penodol. Ac fel rydym yn ei nodi'n fanylach uchod, mae pobl yn ymweld pan fydd digwyddiadau newyddion yn torri.

Roedd **siwrneiau ar hap** yn golygu pan roedd pobl yn dod ar draws cynnwys newyddion, fel rheol ar grynodebau cyfryngau cymdeithasol neu o ganlyniad i hysbysiad gan ap 'cyd-gasglu newyddion' fel Apple Newis neu Upday. Ar yr adegau hyn, yn gyffredinol roedd gan bobl feddylfryd gwahanol. Roeddent ar y llwyfannau hyn i gael adloniant neu i ddal i fyny â'u ffrindiau, yn hytrach nag i chwilio'n weithredol am newyddion. Ar yr adegau hyn, mae'r BBC yn cystadlu am sylw'r defnyddiwr gyda gweithgareddau ar-lein eraill.

## Pan fydd pobl yn dod ar draws newyddion yn ddamweiniol, byddant yn treulio llai o amser yn ymgysylltu â'r cynnwys

At ei gilydd roedd y bobl yn ein hastudiaeth yn gweld llawer iawn o gynnwys newyddion yn ystod y dydd ar eu ffonau clyfar; roedd hyn yn dod drwy grynodebau cyfryngau cymdeithasol neu wasanaethau cyd-gasglu newyddion. Roedd y sgrolio cyson hyn drwy gynnwys newyddion yn golygu nad oeddent mor debygol o chwilio'n weithredol am gynnwys (ar deledu, radio neu ar-lein) gan eu bod bob amser yn teimlo eu bod wedi cael y newyddion diweddaraf. I rai pobl, y cyfryngau cymdeithasol oedd eu hunig ffynhonnell newyddion.

Mae ein hymchwil yn awgrymu bod pobl yn ymgysylltu'n weithredol â'r newyddion pan fydd ganddynt nod penodol mewn golwg – er enghraifft, er mwyn cadarnhau ffeithiau neu i gael gwybod mwy am stori sy'n torri. Ar yr adegau hyn, maent yn fwy tebygol o ddarllen o leiaf rhan o erthygl yn hytrach na gwibio drwy'r penawdau.

> *"Pan rwy'n gweld erthygl ar-lein, efallai wnai ddarllen y teitl a'r llinellau cyntaf yn unig. Chi'n gwybod y darn amlwg, y print mawr."*
> *Dyn, 45, Llundain*

Pan roedd pobl yn cael newyddion yn ddamweiniol, fodd bynnag, roeddent yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n fwy goddefol. Ar gyfryngau cymdeithasol, pur anaml y byddai pobl yn edrych y tu hwnt i'r pennawd. Pan roeddent yn clicio ar erthyglau drwy ddolenni gwasanaethau cyd-gasglu newyddion neu gyfryngau cymdeithasol, roeddem yn gweld patrwm tebyg, gyda phobl yn darllen yr ychydig baragraffau cyntaf yn unig cyn mynd yn ôl i'w crynodeb cymdeithasol. Roedd hyn yn golygu eu bod fel rheol yn treulio llai na munud ar bob darn o gynnwys newyddion roeddent yn ei weld ar eu dyfais os oeddent yn ei gyrraedd o gyfryngau cymdeithasol. Yn bwysig, pan roedd pobl yn cael gafael ar y newyddion yn y ffordd hon, roeddent yn llawer llai ymwybodol o ffynhonnell y stori roeddent yn ei darllen neu yn ei gwylio.

## Mae'r BBC yn ei chael hi'n anodd 'torri drwyddo' i rai grwpiau ar-lein, ac nid yw ei frand yn teimlo'n berthnasol i bobl iau

> *"Dwi'n meddwl bod angen mwy o bresenoldeb ar-lein gan y BBC -dwi byth yn gweld eu herthyglau pan dwi ar Twitter."*
> *Menyw, 27, Llundain*

Nid oes gan y BBC gymaint o ymgysylltiad â chynulleidfaoedd iau sy'n canolbwyntio ar gyfryngau cymdeithasol ac sy'n cael gafael ar newyddion yn fwy damweiniol. Mae'r cynulleidfaoedd hyn yn llai ymwybodol o ap a gwefan newyddion y BBC.

Canfu ein hymchwil fod y bobl hynny a oedd yn defnyddio'r BBC fel rhan o **siwrnai newyddion arferol** neu **siwrnai fwriadol** yn tueddu i fod ar incwm uwch na'r cyfartaledd a dros 24 oed. Yn gyffredinol, roeddent hefyd yn defnyddio llawer ar newyddion y BBC ar y teledu a'r radio. Roedd y cynulleidfaoedd hyn eisoes yn ymwneud â chynnwys newyddion y BBC ar lwyfannau eraill ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n dda gan y BBC.

Yn nodweddiadol, roedd **siwrneiau damweiniol** yn fwy tebygol o gael eu cymryd gan bobl iau, 16-34 oed, nad oeddent mor gyfoethog. Nid oeddent yn ymgysylltu â chynnwys newyddion y BBC ar y teledu na'r radio ar y cyfan. Pan roeddent yn ymgysylltu ar-lein dim ond am gyfnodau byr oedd hynny'n aml iawn.

Roedd ein hymchwil yn cadarnhau bod y BBC yn wynebu her gyda'i frand ymysg cynulleidfaoedd iau. Canfu ein hymchwil grŵp ffocws fod brand newyddion y BBC yn cael ei yrru'n bennaf gan newyddion teledu, sy'n cael ei weld fel rhywbeth "difrifol, llawn gwybodaeth, dibynadwy – ond sy'n cynnwys llawer iawn o wleidyddiaeth". Roedd brand ar-lein y BBC yn cael ei weld fel rhywbeth llawer mwy cynhwysol a rhywbeth a oedd ag apêl ehangach. Ond dywedodd cynulleidfaoedd iau wrthym fod y BBC ar-lein yn ei chael hi'n anodd bod yn wahanol i'r amrywiaeth o ddewisiadau newyddion eraill sydd ar gael iddynt.

Roedd hyn yn cyd-fynd â'n dadansoddiad o gyfryngau cymdeithasol hefyd. Canfu'r dadansoddiad hwn pan roedd pobl yn ymgysylltu â chynnwys y BBC drwy rannu, roeddent yn gadarnhaol gan fwyaf. Ond, pan roedd pobl yn trafod 'newyddion y BBC' yn fwy cyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n negyddol. Roeddent yn cynnwys beirniadaeth fel bod safonau gohebu'n disgyn; bod y BBC yn rhoi llwyfan i safbwyntiau dadleuol; ac anfodlonrwydd â sylw'r BBC i Brexit yn fwy cyffredinol.

## Gwasanaethau cyd-gasglu newyddion a her personoli

Yn ystod ein hymchwil fe welsom fod y rheini a gymerodd ran yn ein hastudiaeth yn defnyddio gwasanaethau cyd-gasglu newyddion.

> Mae gwasanaethau cyd-gasglu newyddion yn wefannau neu'n apiau sy'n casglu amrywiaeth o gynnwys o amrywiaeth o ffynonellau gwahanol. Mae gwasanaethau cyd-gasglu newyddion yn cynnwys newyddion gan gyhoeddwyr a darlledwyr newyddion, ac mae rhai yn cynnwys eu newyddion eu hunain hefyd.

Mae rhywfaint o'r cynnwys newyddion yn cael ei deilwra yn ôl y defnyddiwr unigol drwy ddefnyddio algorithm. Mae hyn ar sail y ffynonellau y mae'r unigolyn wedi'u defnyddio o'r blaen a'r pynciau mae wedi chwilio amdanynt. Mae rhai gwasanaethau cyd-gasglu newyddion hefyd yn defnyddio golygyddion i guradu erthyglau a fydd yr un fath ar gyfer pob defnyddiwr.  Apple News, Google News, Upday a Yahoo yw rhai o'r prif frandiau.

Mae defnyddio'r gwasanaethau cyd-gasglu newyddion hyn wedi arwain at brofiad newyddion mwy personol. Roedd rhai pobl yr oedd eu defnydd yn cael ei dracio'n agos yn cael ystod gul iawn o ffynonellau a phynciau. Roedd ein hymchwil yn dangos bod hyn yn peri nifer o heriau i'r BBC.

- **Ni fydd rhai pobl yn dod ar draws cynnwys y BBC ar-lein o gwbl**. Roedd hyn yn wir ar gyfer nifer bach o bobl yn ein hastudiaeth nad oedd eu gwasanaeth cyd-gasglu newyddion na'u crynodebau cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys y BBC o gwbl. Er bod cyrhaeddiad ar-lein cyffredinol y BBC yn gryf yn gyffredinol ar hyn o bryd, gallai gwasanaethau cyd-gasglu newyddion ei leihau. Byddai'r effaith fwyaf ar grwpiau, fel pobl iau, sy'n llai tebygol o ymgysylltu â chynnwys newyddion y BBC ar deledu neu radio. Canfu ein dadansoddiad o ffonau clyfar mai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyd-gasglu newyddion yn fwyaf rheolaidd i gael newyddion oedd y lleiaf tebygol o'r grwpiau roeddem wedi'u nodi i ddefnyddio ap newyddion y BBC. Nid oedd gwefan newyddion y BBC ymysg y prif wefannau roeddent yn ymweld â nhw; yn hytrach, roedd tair ffynhonnell bosibl wahanol o newyddion sef Facebook, Twitter a Google ymysg y pump uchaf.

- **Nid yw pobl yn ymgysylltu cymaint â newyddion sy'n cael eu darparu drwy wasanaethau cyd-gasglu newyddion**. Pobl a oedd yn defnyddio negeseua gwib a gwasanaethau cyd-gasglu newyddion oedd un o'r grwpiau gyda'r siwrneiau newyddion gyda'r ymgysylltiad isaf â'r BBC.

- **Mae personoli'n gallu golygu nad yw pobl yn cael gweld ystod mor eang o safbwyntiau gwahanol.** Mae mwy o bersonoli yn peri'r risg y gallai pobl fod yn cyfathrebu mewn 'siambrau adlais' ac mai pur anaml y byddant yn dod ar draws cynnwys sy'n herio eu safbwyntiau.

Os bydd y tueddiadau hyn yn parhau, gallent beri risg sylweddol i'r BBC o ran cyflawni Diben Cyhoeddus 1. Mae hwn yn mynnu bod y BBC yn ymgysylltu â phob cynulleidfa, er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion gwybodus a gweithredol. Mae perygl os bydd y BBC ddim ond yn gallu cyrraedd rhai cynulleidfaoedd am gyfnod byr drwy gyfryngau cymdeithasol, y bydd yn ei chael hi'n anodd diwallu'r ddyletswydd hon dros amser.

Yn ei Gynllun Blynyddol, mae'r BBC yn cydnabod ei fod yn rhaid iddo addasu ei wasanaethau newyddion os yw am wasanaethu pob cynulleidfa, yn enwedig y rheini y mae'n anoddach iddo eu cyrraedd. Mae'n nodi bod cynulleidfaoedd iau yn flaenoriaeth ac mae'n ceisio datblygu fformatau newydd sy'n adlewyrchu sut mae'r grwpiau hyn yn cael gafael ar newyddion ar-lein gyda'r nod o gyrraedd saith oedolyn ifanc o bob deg bob wythnos. Mae ein hymchwil yn dangos pwysigrwydd cynnydd yn y maes hwn i'r BBC os yw am gyflawni yn ôl ei flaenoriaethau. Fel arall, mae perygl y bydd yn colli rhannau mwy o'r boblogaeth, dros amser.

**Argymhelliad:**

Er bod gwasanaethau newyddion ar-lein y BBC yn cyrraedd cynulleidfa eang ar hyn o bryd, mae ein gwaith yn awgrymu mai’r rheini sydd yn y grwpiau hŷn yn gyffredinol sy’n defnyddio’r gwasanaethau ar-lein fwyaf, ac mae'r grwpiau hyn eisoes yn cael gwasanaeth da gan deledu a radio’r BBC, yn hytrach na'r cynulleidfaoedd iau sy’n troi eu cefnau ar y llwyfannau hynny.

# Yr hyn rydym yn disgwyl i’r BBC ei wneud

Yn ystod yr adolygiad hwn, rydym wedi cael nifer o sgyrsiau â chynulleidfaoedd ledled y DU am yr hyn maent yn ei werthfawrogi, yn ei hoffi a’r hyn nad ydynt yn ei hoffi am newyddion a materion cyfoes y BBC. Dro ar ôl tro, roedd pobl yn ailadrodd pwysigrwydd y BBC fel ffynhonnell newyddion gywir a dibynadwy sydd ar gael ledled y byd. Roedd hyd yn oed y rhai a oedd yn mynegi safbwyntiau beirniadol yn cydnabod yr heriau y mae’r BBC yn eu hwynebu o ran yr amgylchedd wleidyddol sydd mor amrywiol a disgwyliadau cwbl wahanol y cynulleidfaoedd y mae gofyn iddo eu gwasanaethu.

Serch hynny, mae ein hymchwil yn awgrymu bod posibl i gynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC fod yn fwy cynrychioladol, diddorol a llawn gwybodaeth. Rydym wedi ceisio gwreiddio ein hargymhellion yn nisgwyliadau’r cynulleidfaoedd hyn. Mae bellach yn amser i’r BBC ystyried sut mae’n bwriadu bodloni’r rhain.

**Byddwn yn cwrdd â’r BBC yn gyson i drafod y camau mae’n eu cymryd ymhob un o’r mannau rydyn ni wedi eu nodi. I sicrhau trylowyder, rydym yn disgwyl i’r BBC i adrodd am gynnydd pob un o’r argymhellion yn ei adroddiad blynyddol nesaf.**

Mae’r ymchwil yn yr adroddiad hwn yn dangos bod newidiadau yn y ffyrdd y mae pobl yn cael gafael ar newyddion yn effeithio ar le mae pobl yn cael gwybod am y newyddion, ond hefyd sut maent yn rhyngweithio â'r newyddion a'u disgwyliadau o'r cynnwys maent yn ei weld a'i glywed.

Mae effaith y newidiadau hyn yn mynd y tu hwnt i'r BBC. Os yw cynnwys newyddion gwasanaeth cyhoeddus am barhau i gyrraedd a rhoi gwybodaeth i bob cynulleidfa, bydd angen i ddarparwyr ystyried sut maent yn diwallu gofynion pobl nad ydynt yn reddfol yn rhoi’r teledu neu’r radio ymlaen i gael gwybod am ddigwyddiadau yn y byd.

Bydd Ofcom yn dychwelyd at y themâu hyn fel rhan o’i raglen waith *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* sy’n ymwneud â darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Edrychwn ymlaen at ymgysylltu â darlledwyr a chynulleidfaoedd er mwyn deall sut gall egwyddorion cyfryngau newyddion gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi bodoli ers tro byd, lwyddo dros y degawd nesaf.

# Atodiad 1: Ffeithiau a Ffigurau Pwysig

| | | Ebrill 2018 - Mawrth 2019 | Ebrill 2013 - Marwth 2014 |
|---|---|---|---|
| Cyd-destun y farchnad | Cyfanswm y munudau a dreulir yn gwylio teledu a ddarlledir bob dydd | **3 awr 09 munud** | 3 awr 47 munud |
| | % y gwrandawyr radio sydd â set DAB | **64.4%** | 42.6% |
| | % yr oriau gwrando y gwrandewir arnynt drwy lwyfan digidol (DAB, teledu digidol ar-lein) | **52.9%** | 32.5% |
| | % y cartrefi gyda band eang * | **82%** | 77% |
| | % yr oedolion sy'n defnyddio eu ffôn symudol i fynd ar y rhyngrwyd ** | **71%** | 57% |
| Teledu | Cyfanswm gwariant y BBC ar newyddion a materion cyfoes ** | **£175m** | £170m |
| | Cyfanswm gwariant y BBC ar newyddion a materion cyfoes fel cyfran o gyfanswm y gwariant ** | **13%** | 12% |
| | Cyfanswm gwariant y BBC ar newyddion ** | **£136m** | £127m |
| | Cyfanswm gwariant y BBC ar newyddion fel cyfran o gyfanswm y gwariant ** | **10%** | 9% |
| | Cyfanswm gwariant y BBC ar faterion cyfoes ** | **£39m** | £43m |
| | Cyfanswm gwariant y BBC ar faterion cyfoes fel cyfran o gyfanswm y gwariant ** | **3%** | 3% |
| | Cyfanswm oriau allbwn y BBC ar newyddion a materion cyfoes ** | **22,643** | 22,268 |
| | Cyfanswm oriau allbwn y BBC ar newyddion a materion cyfoes fel cyfran o gyfanswm yr allbwn** | **49%** | 46% |
| | Cyfanswm oriau allbwn y BBC ar newyddion ** | **20,480** | 20,424 |
| | Cyfanswm oriau allbwn y BBC ar newyddion fel cyfran o gyfanswm yr allbwn ** | **44%** | 42% |
| | Cyfanswm oriau allbwn y BBC ar faterion cyfoes ** | **2,163** | 1,844 |
| | Cyfanswm oriau allbwn y BBC ar faterion cyfoes fel cyfran o gyfanswm yr allbwn** | **5%** | 4% |
| | Swm cyfartalog y munudau'n gwylio'r genre newyddion cenedlaethol ar draws teledu bob dydd - pob unigolyn | **14.1 munud** | 16.7 munudau |
| | Swm cyfartalog y munudau'n gwylio'r genre newyddion cenedlaethol ar draws teledu bob dydd - 16-24 oed | **2.8 munud** | 4.5 munudau |
| | Swm cyfartalog y munudau'n gwylio'r genre newyddion cenedlaethol ar draws y BBC bob dydd (pob unigolyn) | **10.6 munudau** | 12.5 munudau |
| | Swm cyfartalog y munudau'n gwylio'r genre newyddion cenedlaethol ar draws y BBC bob dydd (16-24 oed) | **1.7 munudau** | 3 munudau |
| | Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog (3+ munud) BBC News at Six (oedolion 16+) | **12.7m** | 14.5m |
| | Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog (3+ munud) BBC News at Ten (oedolion 16+) | **14.6m** | 16.2m |
| | Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog (3+ munud) sianel BBC News (4+) | **11.7%** | 16.9% |
| | Swm cyfartalog y munudau'n gwylio'r genre materion cyfoes ar draws teledu bob dydd - pob unigolyn | **2.4 munudau** | 2. 9munudau |
| | Swm cyfartalog y munudau'n gwylio'r genre materion cyfoes ar draws y BBC bob dydd - 16-24 oed | **0. 5munudau** | 1 munud |
| | Swm cyfartalog y munudau'n gwylio'r genre materion cyfoes ar draws y BBC bob dydd - pob unigolyn | **1.9 munudau** | 2.4 munudau |
| | Swm cyfartalog y munudau'n gwylio'r genre materion cyfoes ar draws y BBC bob dydd - 16-24 oed | **0.4 munudau** | 0.7 munudau |
| | Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog (3+ munud) Question Time gan bawb 16+ | **4.1m** | 4.8m |
| | Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog (3+ munud) Panorama gan bawb 16+ | **3.7m** | 4.0m |
| | Cyfanswm yr holl oedolion 15+ sy'n gwrando ar y radio | **88.8%** | 89.6% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Radio** | Cyfanswm unigolion 15-24 oed sy’n gwrando ar y radio | **81.3%** | 85.3% |
| | Unigolion 15+ sy’n gwrando ar Today Programme | **12.8%** | 13.6% |
| | Unigolion 15+ sy’n gwrando ar Jeremy Vine | **12.8%** | 12.9% |
| **Ar-lein** | Cyfanswm y boblogaeth ar-lein sy’n defnyddio gwefan newyddion y BBC (18+)*** | **63.7%** | 63.4% |

*Ffynhonnell y data gwylio teledu - BARB*
*Mae’r mis prysuraf dros y cyfnod amser wedi’i ddewis ar gyfer data gwylio rhaglenni.*
*Ffynhonnell y data gwrando ar y radio - RAJAR*
**Traciwr Technoleg Ofcom – Ionawr-Mehefin 2019 o gymharu â Ionawr-Mehefin 2014*
***Ffynhonnell gwariant: Mae ffigurau Ofcom/y BBC wedi’u haddasu ar gyfer CPI (prisiau 2018). Mae’r ffigurau yn cynnwys gwariant*
*ar raglenni; Ffynhonnell oriau: Ofcom/y BBC – 2018 o gymharu â 2013 (blwyddyn lawn)*
****Comscore - Mawrth 2016 o gymharu â Mawrth 2019*